

# **Cynllun Datblygu Lleol Powys**

**2011 - 2026**

**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

**Datganiad Ymgynghoriad  
Rhifyn Cyntaf: Mis Hydref 2018**



**Cynnwys**

	Tudalen
RHAN A	
1. Rhagarweiniad	1
2. Gwybodaeth am Gamau Paratoi'r CCA	3
RHAN B	
3. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfres gyntaf y CCA	5
3.1 Rhwymedigaethau Cynllunio	6
3.2 Tai Fforddiadwy	14
3.3 Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	26
3.4 Cymeradwyo a Mabwysiadu cyfres gyntaf y CCA gan y Cyngor	68
4. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar yr ail gyfres o CCA	
5. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar drydedd gyfres y CCA	
6. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar bedwaredd gyfres y CCA	

**Atodiadau**

1	Cynrychiolaethau yn deillio o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfres gyntaf y CCA (mis Hydref 2018)
2	Cynrychiolaethau yn deillio o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar ail gyfres y CCA (dyddiad yn yr arfaeth, 2019)
3	Cynrychiolaethau yn deillio o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar drydedd gyfres y CCA (dyddiad yn yr arfaeth, 2019)
4	Cynrychiolaethau yn deillio o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar bedwaredd gyfres y CCA (dyddiad yn yr arfaeth, 2020)

**RHAN A****1. Rhagarweiniad**

1.0.1 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Powys (CDLI) 2011-2026 gan y Cyngor Llawn ym mis Ebrill 2018. Er bod y CDLI yn cynnwys polisiâu a chynigion sy'n sail ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Powys, mae'n osgoi gormod o fanylder. Felly, ategir rhai polisiâu yn y CDLI gan gyfres o ddogfennau cyfarwyddol, sef Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) er mwyn helpu deall, dehongli a defnyddio'r polisi wrth wneud penderfyniadau cynllunio.

1.0.2 Blaenoriaethwyd llunio dogfennau CCA yn ddibynnol ar destun a'r amser a'r adnoddau sydd ar gael. Mae gofyn i'r Cyngor fonitro ei berfformiad o ran llunio a mabwysiadu CCA yn erbyn y rhaglen ganlynol a gytunwyd:

**Tabl 1: Rhaglen CCA Cynllun Datblygu Lleol Powys**

Maes Pwnc y CCA		Dolen i Bolisi'r CDLI	Amserlen Darged yn dilyn mabwysiadu'r CDLI	Dyddiad Targed i Fabwysiadu'r CCA
Cyfres 1	Rhwymedigaethau Cynllunio	DM1	O fewn 6 mis	Mis Hydref 2018
	Tai Fforddiadwy	H5, H6, SP3		
	Bioamrywiaeth	DM2, SP7		
Cyfres 2	Tirwedd	DM4, SP7	O fewn 12 mis	Ebrill 2019
	Ynni Adnewyddadwy	RE1, DM13		
Cyfres 3	Ardaloedd Cadwraeth	DM13, SP7	O fewn 18 mis	Mis Hydref 2019
	Mannau Agored	DM3		
	Canllaw Dylunio Aneddleoedd	DM13		
Cyfres 4	Archaeoleg	SP7	O fewn 24 mis	Ebrill 2020
	Yr Amgylchedd Hanesyddol – gan gynnwys Cofnodion yr Amgylchedd Hanesyddol	DM13, SP7		
	Draenio Tir	DM6		

1.0.3 Cychwynnodd Cyngor Sir Powys baratoi CDLI Powys ym mis Ionawr 2011. Cyhoeddwyd y Cytundeb Cyflenwi<sup>1</sup> ar gyfer y CDLI am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2010 ac fe'i hadolygwyd ym mis Mawrth 2013, Chwefror a mis Hydref 2015. Roedd yn olrhain yr amser ar gyfer paratoi'r CDLI a Chynllun Cynnwys y Gymuned (CCG) oedd yn disgrifio sut a phryd

<sup>1</sup> Cytundeb Cyflenwi'r CDLI <http://www.powys.gov.uk/ldp>

fyddai'r Cyngor Sir yn cynnwys unigolion a sefydliadau gyda diddordeb yn y broses o baratoi'r CDLI.

1.0.4 Diweddarwyd Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG) o'r CCG Cytundeb Cyflenwi'r CDLI, ac wedi ei deilwra ar gyfer proses y CCA. Mae hyn yn golygu y datblygir y dull o weithio mewn perthynas ag ymgysylltu â'r cyhoedd i adlewyrchu ac i fod yn gymesur â manylder a chynnwys gwaith y CCA ac yn addas i'r partïon y disgwylir iddynt gyfrannu, ac ar yr un pryd bodloni'r amserlenni o ran eu llunio. Mae'r CCG a gytunwyd er mwyn paratoi'r CCA yn rhan o'r Protocol ar gyfer Paratoi a Mabwysiadau Canllawiau Cynllunio Atodol<sup>2</sup> a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2018 (a elwir o hyn allan yn 'Protocol CCA).

1.0.5 Yn unol â'r Protocol CCA, mae'r Datganiad Ymgynghoriad hwn yn crynhoi pob cam wrth lunio'r CCA:

- Pwy sydd wedi cyfrannu.
- Crynodeb o'r ymgysylltu gyda'r Grŵp Cyfeirio a'r Rhanddeiliaid Pynciau.
- Y camau a gymerwyd i hysbysebu'r ymgynghoriad.
- Cyfanswm y ffurflenni cynrychiolaeth a dderbyniwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- Crynodeb o'r prif faterion a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus.
- Ymatebion y Cyngor i'r prif faterion a godwyd ac unrhyw newidiadau a gytunwyd i'r CCA i ddelio gyda'r rhain.

1.0.6 Mae Adran 2 y Datganiad Ymgynghoriad hwn yn ymddangos yn gronolegol er mwyn cyd-fynd â phob cam o ran paratoi a mabwysiadu'r CCA fel y nodir yn y Protocol CCA:

Cam 1 - Adolygu

Cam 2 - Grŵp Cyfeirio, Rhanddeiliaid Pynciau a CCA Drafft Gweithio

Cam 3 – CCA Drafft Ymgynghorol

Cam 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cam 5 – CCA Terfynol

Cam 6 - Mabwysiadu

---

<sup>2</sup> Protocol ar gyfer Paratoi a Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol [<http://www.powys.gov.uk/cy/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/canllawiau-cynllunio-atodol-y-cdli/>]

## **2. Gwybodaeth ar Gamau Paratoi'r CCA**

2.0.1 Yn unol â'r Protocol CCA, mae'r camau canlynol yn gyffredin i bob CCA:

### **2.1 Cam 1 – Adolygu**

2.1.1 Cynhaliwyd adolygiad o ddeddfwriaeth, polisi a chyfarwyddyd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol er mwyn sefydlu cefndir a chyd-destun ar gyfer y CCA ac i adnabod materion perthnasol. Lle'r oedd yn briodol, mae'r Cyngor wedi ceisio cyfraniad rhanddeiliaid arbenigol gyda'r nod o gyrraedd consensws.

### **2.2 Cam 2 - Y Grŵp Cyfeirio, Rhanddeiliaid Pynciau a CCA Drafft Gweithio**

2.2.1 Yn gynnar yn y broses o baratoi CCA, cysylltwyd â rhanddeiliaid proffesiynol i sefydlu Grŵp Cyfeirio ar gyfer bob CCA a nodwyd Rhanddeiliaid Pynciau perthnasol. Yn dilyn cyfraniad y Grŵp Cyfeirio wrth lunio CCA Drafft Gweithio, rhannwyd y drafft gyda'r Rhanddeiliaid Pynciau er mwyn derbyn adborth cychwynnol. Gweler adrannau perthnasol Rhan B isod ar gyfer manylion aelodau'r Grŵp Cyfeirio a'r Rhanddeiliaid Pynciau y cysylltwyd â hwy yn ystod y broses o lunio bob CCA.

### **2.3 Cam 3 – CCA Drafft Ymgynghorol**

2.3.1 Defnyddir Gweithgor CDLI y Cyngor, sy'n cynnwys naw Cynghorydd Sir, ac a gadeirir gan Ddeiliad Portffolio'r Cyngor ar gyfer yr Economi a Chynllunio, i graffu ar a chymeradwyo'r CCA Drafft ar gyfer Ymgynghoriad Cyhoeddus. Mae agendâu, adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd blaenorol Gweithgor CDLI y Cyngor ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor drwy ddilyn y ddolen hon:

<http://www.powys.gov.uk/en/democracy/council-committees-and-meetings/>

2.3.2. Cymeradwywyd cyfres gyntaf y CCA ar gyfer y cam ymgynghori gan Weithgor y CDLI ar 22<sup>ain</sup> Mehefin 2018.

### **2.4 Cam 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus**

2.4.1 Mae'r CCA wedi bod yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus a barodd chwe wythnos yn unol â'r Cynllun ar gyfer Rhanddeiliaid CCA a Chynnwys y Gymuned (gweler Atodiad 1 Protocol CCA). Yn ogystal, rhoddwyd rhybudd ymlaen llaw i Gynghorau Tref a Chymuned o'r cyfnod ymgynghori yn unol â'r Protocol i'w galluogi i hysbysebu proses y CCA o fewn eu cymunedau unigol. Gweler yr adrannau perthnasol ar gyfer pob CCA yn Rhan B y ddogfen hon ar gyfer dyddiadau'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus a barodd chwe wythnos.

2.4.2 Roedd pob un o ddogfennau ymgynghori'r CCA yn gofyn cyfres o gwestiynau i gynrychiolwyr ymateb iddynt. Mae'r Datganiad Ymgynghoriad hwn yn cofnodi ymatebion fesul cwestiwn ac yn nodi ymatebion cytûn y Cyngor mewn perthynas â'r materion a godwyd.

2.4.3 Mae'r Cyngor yn ystyried pob cynrychiolaeth yn ofalus er mwyn drafftio ymateb fydd efallai'n cynnwys argymhelliad i newid neu ddiwygio'r CCA. Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu drafftio gyda chymorth aelodau'r Grŵp Cyfeirio lle bo'n berthnasol, ac fe'u cytunir gan Weithgor y CDLI cyn eu hadrodd i'r Cabinet. Bydd casgliad manwl o gynrychiolaethau'n cael eu hatodi i'r Datganiad Ymgynghoriad ar gyfer pob CCA.

### **2.5 Camau 5 a 6 – CCA Terfynol a Mabwysiadu**

2.5.1 Mae gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r CCA yn ffurfiol cyn eu cyhoeddi, a chyn ei ddefnyddio at ddiben rheoli datblygu. Mae Rhan B y Datganiad hwn yn cofnodi'r broses hon, a chaiff ei diweddarw wrth i CCA eraill cael eu llunio a'u cymeradwyo gan y Cabinet.

## **2.6 Aseidiadau Effaith CCA**

2.6.1 Er nad yw dogfennau'r CCA yn bolisi ffurfiol eu hunain, byddant yn cael eu defnyddio i ategu gweithredu'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac felly cawsant eu hasesu ar lefel anffurfiol fel mater o arfer dda gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Asesu Effaith y Cyngor.

**RHAN B**

**3. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar gyfres gyntaf y CCA**

3.0.1 Yn unol â rhaglen y CCA a gytunwyd ar gyfer y CDLI (yn Nhabl 1 uchod), y tri CCA cyntaf a luniwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus oedd:

- **Rhwymedigaethau Cynllunio**
- **Tai Fforddiadwy**
- **Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**

3.0.2 Yn unol â Cham 4 Protocol y CCA, cyhoeddwyd CCA Drafft yr Ymgynghoriad ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus o 6 wythnos, gyda'r cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 11<sup>eg</sup> Gorffennaf hyd at 21<sup>ain</sup> Awst 2018.

3.0.3 Hysbyswyd Cynghorwyr Sir, Cynghorau Tref a Chymuned a phob cynrychiolydd ar fas data CDLI Powys am yr ymgynghoriad, ac roedd y dogfennau ar gael i'w gweld ar dudalennau CDLI gwefan y Cyngor.

3.0.4 Cyhoeddwyd hysbysiad am y cyfnod ymgynghori ar Dudalen Newyddion y Cyngor, ar dudalen we'r CDLI a thrwy gyfryngau cymdeithasol. Anfonwyd datganiad i'r wasg at y papurau lleol.

3.0.5 Roedd copiâu caled o'r dogfennau ymgynghori ar gael i'w gweld ym mhrif swyddfeydd y Cyngor yn y lleoliadau canlynol:

- Neuadd y Sir a'r Gwalia, Llandrindod
- Neuadd Brycheiniog, Aberhonddu
- Neuadd Maldwyn, Y Trallwng

3.0.6 Roedd copiâu caled ar gael i'w gweld yn holl Llyfrgelloedd Cyhoeddus Powys.

3.0.7 Estynnwyd gwahoddiad i bobl anfon cynrychiolaethau naill ai drwy lythyr / ebost ac anogwyd pobl i ddefnyddio ffurflen cynrychiolaeth safonol.

3.0.8 Mae Tabl B1 isod yn dangos faint o gynrychiolaethau a dderbyniwyd mewn perthynas â phob CCA. Ceir hyd i adroddiad mwy manwl am yr ymatebion a dderbyniwyd ar gyfer pob CCA yn yr atodiadau perthnasol.

**Tabl B1: Nifer y Cynrychiolaethau'n cyflwyno sylwadau i'r ymgynghoriad ar gyfres gyntaf y CCA**

<b>CCA Drafft yr Ymgynghoriad</b>	<b>Nifer y Cynrychiolwyr yn cyflwyno Cynrychiolaethau</b>
Rhwymedigaethau Cynllunio	7
Tai Fforddiadwy	7
Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth	10
<b>Cyfanswm</b>	<b>24</b>

3.0.9 Gweler y tablau isod ar gyfer y prif faterion oedd yn deillio o'r ymgynghoriad ar gyfer pob un o'r CCA, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

### **3.1 CCA Rhwymedigaethau Cynllunio**

#### **3.1.1 Grŵp Cyfeirio**

3.1.2 Er mwyn paratoi'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio, roedd y Cyngor wedi ceisio cyfranogiad a chyfraniad Rhanddeiliaid Pynciau amrywiol, ac o'r rhain sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio.

3.1.3 Roedd y Grŵp Cyfeirio'n cynnwys 14 aelod, oedd yn cynnwys naill ai un neu fwy o gynrychiolwyr o wasanaethau canlynol y Cyngor:

- Polisi Cynllunio
- Rheoli Datblygu (Swyddog Cynllunio a Monitro)
- Ysgolion
- Tai
- Chwaraeon a Hamdden
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth
- Adfywio
- Yr Iaith Gymraeg
- Cyllid
- Gwasanaethau Cyfreithiol

3.1.4 Gweler tabl B2 ar gyfer crynodeb o'r ymgysylltiad gyda'r Grŵp Cyfeirio yn ystod y broses o lunio'r CCA drafft:

**Tabl B2 - Cyfraniad y Grŵp Cyfeirio (CCA Rhwymedigaethau Cynllunio)**

<b>Dyddiad</b>	<b>Pwy a Sut?</b>
Dechrau Mai 2018	Cysylltu i gynnis cyfarfod cychwynnol, er dilynwyd hyn gan ohebiaeth ysgrifenedig yn lle. Roedd y Grŵp Cyfeirio wedi derbyn manylion ymarfer cwmpasu'r CCA, Protocol CCA Drafft a rhestr o Rhanddeiliaid Pynciau arfaethedig, a gwahoddiwyd adborth.
Diwedd Mai 2018	Dosbarthwyd y CCA Drafft Gweithio ar gyfer adborth.
Mehafin 2018	Dosbarthwyd y CCA Drafft Gweithio Diwygiedig i'r Grŵp Cyfeirio a Rhanddeiliaid Pynciau.  Dilynwyd hyn gan drafodaethau dan arweiniad swyddogion ar feysydd pwnc amrywiol o ran cyfraniadau cynllunio er mwyn casglu tystiolaeth gyfredol, yn enwedig mewn perthynas â ffigurau/costau ar gyfer unrhyw gyfraniadau "penodol". Cynhaliwyd cyfarfodydd unigol gyda Swyddogion o'r Adranau Chwaraeon a Hamdden, Ysgolion a'r Iaith Gymraeg. Y diben oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn llenwi unrhyw fylchau oedd yn weddill yn y CCA Drafft Gweithio. Ystyriwyd y newidiadau a awgrymwyd, wrth lunio'r CCA Drafft ar gyfer yr Ymgynghoriad.
Gorffennaf 2018	Dosbarthwyd hysbysiad o gyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus i bawb ar Fas Data'r CDLI.  Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus am 6 wythnos rhwng 11eg Gorffennaf a 21ain Awst.



## CDLI Powys, Datganiad Ymgynghoriad y CCA, mis Hydref 2018

Gorffennaf 2018	Dosbarthwyd neges atgoffa trwy ebost i'r grŵp oedd yn cynnwys eu hysbysu am ddigwyddiadau pwysig wrth symud i'r dyfodol.
Dechrau Awst 2018	Cyfraniad Swyddog yr Iaith Gymraeg mewn perthynas â thargedu grwpiau diddordeb perthnasol. Yn dilyn hyn, cysylltwyd â rhestr o randdeiliaid ym maes y Gymraeg (gan gynnwys y Cyngorau Tref a Chymuned a nodwyd fel Cadarnleoedd y Gymraeg a grwpiau gyda diddordeb yn y Gymraeg) i gynyddu ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus.
Awst 2018	Derbyniwyd cynrychiolaethau i'r ymgynghoriad, ac fe'u trafodwyd gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio perthnasol.
Medi 2018	Cyflwynwyd y CCA Drafft ar gyfer yr Ymgynghoriad oedd yn dangos newidiadau arfaethedig i Weithgor y CDLI. Hysbyswyd y Grŵp Cyfeirio am unrhyw faterion a nodwyd gan Weithgor y CDLI cyn cytuno'r CCA i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

### 3.1.5 Rhanddeiliaid Pynciau

3.1.6 Roedd y grŵp Rhanddeiliaid Pynciau mwy yn cynnwys 18 aelod ychwanegol, gan gynnwys cynrychiolwyr y gwasanaethau canlynol:

- Ecoleg
- Mwynau
- Draenio Tir a
- Theithio Llesol;
- Yn ogystal, roedd Deiliaid Portffolio'r Cyngor gyda chyfrifoldeb am Gyllid, Trafnidiaeth, Dysgu a'r Gymraeg, Priffyrdd, Tai a'r Economi, a Chynllunio yn derbyn copïau o ohebiaeth y Rhanddeiliaid Pynciau yma.

3.1.7 Gwahoddwyd y rhanddeiliaid hyn i roi adborth anffurfiol ar ddrafft gweithio o'r CCA cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol, er ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau penodol.

### 3.1.8 Gweithgor y CDLI

3.1.9 Cafodd y CCA Drafft eu hystyried gan Weithgor y CDLI ar 22<sup>ain</sup> Mehefin 2018 a'u cymeradwyo ar gyfer yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

### 3.1.10 Ymgynghoriad y CCA

3.1.11 Roedd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhedeg o 11<sup>eg</sup> Gorffennaf hyd at 21<sup>ain</sup> Awst 2018 a derbyniwyd cynrychiolaethau gan y canlynol:

#### Enw'r Cynrychiolydd (Rhif y Cynrychiolydd.)

- Glandŵr Cymru (5704)
- Federasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) (78)
- Cwmni Penseiri Hughes (Y Drenewydd) (1552)
- Cyngor Cymuned Maesyfed (131)
- Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenystyrywaid (516)
- Cyngor Tref Trefaldwyn (517)
- Cyngor Tref Llanandras a Norton (525)

3.1.12 Gweler Tabl 3 isod ar gyfer y prif faterion oedd yn deillio o'r ymgynghoriad ac ymatebion y Cyngor i'r rhain.

3.1.13 Cafodd y cynrychiolaethau ac ymatebion drafft y Cyngor eu hystyried gan Weithgor y CDLI yn ei gyfarfod ar 7<sup>fed</sup> Medi 2018, ac wedi hynny gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9<sup>fed</sup> Hydref 2018.

**Tabl B3 - Prif faterion yn deillio o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus (CCA Rhwymedigaethau Cynllunio)**

<b>Cwestiwn 1: PO1 – Ydych chi'n cytuno gydag agwedd y Cyngor i beidio mynd ar ôl Atodlen Codi Tâl ASC (Ardoll Seilwaith Cymunedol) ar hyn o bryd? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Dylai cynghorau tref a chymuned gael mwy o gyfraniad at gytundebau S106, a dylid cynnal ymgynghoriad pellach ar rwymedigaethau cynllunio nes ymlaen yn y broses. <b>(Cyn 131, Cyn 525)</b>	Mae cyfleoedd yn bodoli ar gyfer cyfraniadau adeg y camau cyn-ymgeisio ac ymgeisio pan fydd cymunedau'n gallu codi materion. Yn anffodus ni fyddai'n ymarferol i gael ymgynghoriad ffurfiol am rwymedigaethau cynllunio ar wahân i'r broses o wneud cais cynllunio.
Dylid parhau i adolygu'r sefyllfa neu'r angen ar gyfer ASC er mwyn sicrhau y caiff y seilwaith angenrheidiol ei gyflenwi. <b>(Cyn 517)</b>	Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro addasrwydd cyflwyno ASC fel yr eglurir ym mhara 4.17 y CCA.
Dylai datblygwyr gyfrannu at welliannau angenrheidiol er mwyn lliniaru effaith datblygiad ar seilwaith Camlas Trefaldwyn. <b>(Cyn 5704)</b>	Byddwn yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio lle maent yn cydymffurfio â'r profion a gall hyn gynnwys cyfraniadau tuag at y Gamlas. Ni ystyrir fod cyfeiriad penodol at y Gamlas o fewn y CCA yn briodol oherwydd fe'i lluniwyd i gyfeirio at y seilwaith yn gyffredinol.

<b>Cwestiwn 2: PO2 - Ydych chi'n cytuno, er budd osgoi dyblygu, fod y CCA hyn ond yn croesgyfeirio at bolisiau yn y CDLI ac nid yw'n eu hail-adrodd? Fyddai'n well gennych weld y CCA yn cynnwys y polisiau perthnasol? Os felly, dylai'r polisiau ymddangos yn y brif ddogfen neu mewn Atodiad?</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Dylid cynnwys polisiau perthnasol y CDLI mewn atodiad, neu dylid croesgyfeirio atynt gyda dolenni i'r we. <b>(Cyn 516, Cyn 5704, Cyn 1552)</b>	Cynnwys hyperddoleni yn y CCA i gynorthwyo darllenwyr.

<b>Cwestiwn 3: PO3 - Oherwydd natur rhwymedigaethau cynllunio, nid yw'n bosib i'r CCA hyn gynnwys pob sefyllfa/manyllyn. Ydych chi o'r farn fod y ddogfen yn glir yn hyn o beth? Ydych chi'n cytuno ei fod yn galluogi swyddogion, rhanddeiliaid a datblygwyr i ddeall y gellir ceisio rhwymedigaethau ychwanegol neu amgen? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Dylid rhoi enghreifftiau o'r amgylchiadau lle gellir ceisio	Mae para 5.5 yn egluro y gwneir cais am rhwymedigaethau ychwanegol os oes digon o

rhwymedigaethau ychwanegol efallai. <b>(Cyn 1552)</b>	dystiolaeth gadarn i gyfiawnhau rhwymedigaethau.
Dylid cyfeirio at y cam cyn-ymgeisio ym mhara 5.6 fel cyfle i wneud datblygwyr yn ymwybodol o rhwymedigaethau cynllunio. <b>(Cyn 5704)</b>	Cytuno. Mae ymwybyddiaeth gynnar yn bwysig. Hefyd mae'r pwynt hwn wedi cael ei egluro ymhellach trwy ail-eirio yn y Siart Lif Cam wrth Gam.

**Cwestiwn 4 PO4 - Ydych chi'n cytuno taw datblygiad "mawr" ddylai ysgogi rhwymedigaethau ran amlaf? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda. Noder unrhyw newidiadau o ran ceisio rhwymedigaethau sydd yn eich barn chi'n addas ac yn berthnasol ym Mhowys, gan nodi enghreifftiau gan awdurdodau cynllunio eraill, os ydych yn ymwybodol ohonynt. D.S. Nid yw targedau/trothwyon pendant, lle gosodir y rhain o fewn y CDLI, yn destun trafodaeth ar hyn o bryd, a byddent yn cael ei hail-asesu'n unig adeg Adolygu'r Cynllun.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Er ein bod yn cytuno gyda phara. 5.11, nid oes ei angen yn y CCA. <b>(Cyn 78)</b>	Yn ein barn ni, dylid cadw para 5.11 oherwydd mae'n bwysig o safbwynt olrhain y disgwylir ceisio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer datblygiadau mawr, er na fydd eu hangen efallai yn y pen draw.
Dylid egluro y gall fod angen rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer unrhyw ddatblygiad. <b>(Cyn 517)</b>	Mae'r sefyllfa'n gywir, mor bell ag y bodlonir y profion ar gyfer y rhwymedigaethau cynllunio. Mae para 5.11 yn nodi y caiff pob achos ei ystyried ar ei deilyngdod ei hun, felly ni ystyrir bod angen unrhyw ddiwygiad.
Er mwyn osgoi amwysedd, dylid ychwanegu ceisiadau lle mae angen ymgynghoriad cyn-ymgeisio fel trothwy ar gyfer rhwymedigaeth. <b>(Cyn 517)</b>	Ceisiadau mawr yw'r rhai sy'n destun ymgynghoriad cyn-ymgeisio, felly ni ystyrir bod angen diwygio para 5.11.

**Cwestiwn 5: PO5 – Ydych chi o'r farn fod y Siart Lif Cam wrth Gam yn Ffigur 1 yn glir a chywir? Os na, pa newidiadau fydddech yn eu hawgrymu? Os oes gennych brofiad o'r broses o fewn Cyngor Sir Powys, ydy'r siart lif hon yn adlewyrchu eich profiadau chi?**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Dylai'r siart lif gynnwys hyblygrwydd i ddatblygwr ddrafftio'r S106. <b>(Cyn 78)</b>	Cytuno fod hyn yn opsiwn, ond byddem yn argymhell diwygio para 5.9 i egluro hyn yn hytrach na newid Ffigur 1.
Dylai'r siart lif gynnwys y cam ymgynghori cyn-ymgeisio sy'n galluogi cyfraniad cynnar gan gynghorau tref a chymuned. <b>(Cyn 517)</b>	Nodwyd, ond nid oes angen diwygiad, oherwydd mae'r ymgynghoriad cyn-ymgeisio'n cael ei gynnwys ar ddiwedd paragraff cyntaf Ffigur 1. Mae'r Cyngor yn argymhell cryfhau geirio'r Siart Lif ym Mluch 2 trwy ei ddiwygio i ddarllen fel a ganlyn: "Bydd y Swyddog Achos yn gwneud asesiad cychwynnol o oblygiadau S.106 gan dalu sylw at unrhyw drafodaethau a gynhaliwyd neu unrhyw sylwadau sy'n deillio o'r cam cyn-ymgeisio".
Dylid cynnwys ymgynghori ar	Mae cyfleoedd yn bodoli ar gyfer cyfraniad

rwymedigaethau cynllunio gyda chynghorau tref a chymuned. <b>(Cyn 525)</b>	adeg y camau cyn-ymgeisio ac ymgeisio, lle gall cymunedau dynnu sylw at faterion. Yn anffodus ni fyddai'n ymarferol cynnal ymgynghoriad ffurfiol ar rwymedigaethau cynllunio ar wahân i'r broses o wneud cais cynllunio.
Mae deialog anffurfiol a thrafodaethau anffurfiol cyn-ymgeisio yn werthfawr ochr yn ochr â'r ymholiadau taladwy mwy ffurfiol cyn-ymgeisio. Ni phwysleisir hyn yn y siart lif. <b>(Cyn 1552)</b>	Nodwyd, ond ni ystyrir bod angen newid y CCA. Mae'r gwasanaeth cyn-ymgeisio tu allan i gwmpas y CCA, ac mae'n cael ei weithredu'n unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru.

**Cwestiwn 6: PO6 – ydych chi'n cytuno gyda'r agwedd taw CCA Tai Fforddiadwy ac nid y CCA hyn sy'n cynnwys y trefniadau ar gyfer asesu hyfywedd ariannol datblygiad penodol?**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Anghytuno, oherwydd gall unrhyw un o ofynion S106 effeithio ar hyfywedd cynllun, nid tai fforddiadwy'n unig. <b>(Cyn 78)</b>	Nodwyd y sylw, ond ni ystyrir bod angen unrhyw newid oherwydd mae CCA Tai Fforddiadwy yn delio gyda'r pwynt hwnnw.
Cynnwys hyper-ddolen i CCA Tai Fforddiadwy. <b>(Cyn 1552)</b>	Cytunwyd.

**Cwestiwn 7: PO7 - Er nad oes gofyn statudol i bennu amserlen o ran gwario cyfraniadau cynllunio, ydych chi'n cytuno gyda'r cyfnod o 10 mlynedd (uchafswm) a awgrymwyd? Os na, noder pam os gwelwch yn dda.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Gwrthwynebu'r cyfnod o ddeng mlynedd a gynigir oherwydd ei fod yn afresymol, ac yn argymhell cyfnod o bum mlynedd oni chytunir fel arall gyda'r datblygwr. <b>(Cyn 78)</b>	Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod awdurdodau eraill wedi gweithio'n llwyddiannus ar sail cyfnod o ddeng mlynedd, ond mae'n derbyn y dylai para 6.17 egluro taw mater i'w drafod yw hwn.

**Cwestiwn 8: PO8 - Ydych chi o'r farn fod y pum prif faes pwnc a amlinellir yn Rhan 3 yn gywir ar gyfer y ddogfen hon? Os na, gofynnir ichi egluro pa newidiadau hoffech eu gweld a pham.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Gall cyfleusterau cymunedol fod yn bwnc ar wahân. <b>(Cyn 78)</b>	Nodwyd, ond gan ystyried fod cyfleusterau cymunedol yn debygol o fod ar gyfer safle penodol, ac yn destun triniaeth fesul achos, ystyrir y dylai'r pwnc yma aros yn y categori 'Meysydd Pwnc Eraill'

**Cwestiwn 9: PO9 - Ydych chi'n cytuno fod y manylion a roddir yn Rhan 3 ar gyfer y meysydd pwnc amrywiol yn berthnasol ac yn ddigon i hysbysu trafodaethau S.106? Os na, pa newidiadau hoffech eu gweld a pham?**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
<b>Pwnc Tai Fforddiadwy</b> Gwell eglurhad y dylid defnyddio	Nodwyd ond ni ystyrir bod angen unrhyw newid oherwydd mae'r grynodedb yn cyfeirio at

CCA Tai Fforddiadwy. <b>(Cyn 78)</b>	hyn.
<b>Pwnc Addysg</b> 1. A ddylid cynnwys Ysgolion cyfrwng Cymraeg yn rhestr yr ysgolion a gefnogir gan gyfraniadau? 2. Mae'r cyfraniadau ariannol yn Nhabl E2 yn uwch na'r hyn a godir gan awdurdodau eraill, a dylid eu cymharu. 3. Ni ddylid cyllido mesurau diogelwch a diogeledd newydd yn llawn. <b>(Cyn 78)</b>	1. Mae'n delio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg eisoes a does dim angen eu rhestru ar wahân. 2. Mae'r Cyngor wedi defnyddio ffigurau BCIS; ystyrir fod y rhain yn gywir ac yn briodol ar gyfer Powys, a gellir eu diweddarau'n amlach. 3. Caiff y geiriau eu diwygio i gyfeirio at wella mesurau Diogelwch a diogeledd er mwyn cynnig amgylchfyd diogel (gan gynnwys ..... ) er mwyn hwyluso cynnydd yn nifer y lleoedd ar gyfer disgyblion.
<b>Pwnc Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored</b> 1. Gwrthwynebu na fydd y Cyngor yn mabwysiadu'r man agored, oherwydd bydd yn arwain at greu cwmnïau rheoli a chostau ar gyfer yr holl drigolion, gan gynnwys y rhai mewn tai fforddiadwy. <b>(Cyn 78)</b> 2. Gall Cyngorau Tref a Chymuned sefydlu ymddiriedolaethau i gynnal manau agored a chyfleusterau cymunedol am byth. <b>(Cyn 517)</b> 3. Dylid cynnwys cyfeiriad penodol at welliannau i lwybr halio Camlas Trefaldwyn. <b>(Cyn 5704)</b>	1. Nodwyd, ond dim newid. Mae penderfyniad y Cyngor i beidio mabwysiadu manau agored newydd tu allan i'r CCA; bydd dulliau rheoli amgen yn destun ystyriaeth adeg llunio CCA Mannau Agored. 2. Rydym yn gwerthfawrogi'r awgrym a chaiff ei ystyried wrth lunio CCA Mannau Agored. 3. Byddwn yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio lle maent yn cydymffurfio â'r profion a gall hyn gynnwys cyfraniadau tuag at y Gamlas. Ni ystyrir bod angen cyfeiriad penodol at y Gamlas yn y CCA oherwydd fe'i lluniwyd i gyfeirio at seilwaith cyffredinol.
<b>Pwnc Trafnidiaeth a Mynediad</b> 1. Mae'n debyg y bydd angen cynlluniau Teithio a/neu drafnidiaeth ar gyfer datblygiadau mawr yn unig. <b>(Cyn 78)</b> 2. Dylid cynnwys cyfeiriad penodol at welliannau i lwybr halio Camlas Trefaldwyn. <b>(Cyn 5704)</b>	1. Diwygio geirio'r grynodedb i ddarllen "bydd gofyn i gynlluniau sy'n creu traffig neu deithio sylweddol efallai, ddangos ....". 2. Byddwn yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio lle maent yn cydymffurfio â'r profion a gall hyn gynnwys cyfraniadau tuag at y Gamlas. Ni ystyrir bod cyfeiriad penodol at y Gamlas yn y CCA yn briodol oherwydd fe'u lluniwyd i gyfeirio at seilwaith cyffredinol.

**Cwestiwn 10: PO10 – Ydych chi'n cytuno gyda'r dulliau a'r fformiwlâu (lle y'u darperir) i gyfrifo'r cyfraniadau ariannol sydd eu hangen fel yr amlinellir yn Rhan 3? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Ni chodwyd unrhyw faterion.	Nodwyd sylwadau

**Cwestiwn 11: PO11 – Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu cyflwyno nad ydynt yn dod o dan y cwestiynau uchod, gellir eu cynnwys yma:**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Dylid cyfeirio at y ffaith y bydd y	Cyfeirir at gofrestr S106 ym mhara 6.18 felly ni

<p>Cyngor yn cadw cofrestr gyhoeddus o gytundebau S106 ar ôl eu llofnodi, fydd yn cynnwys rhestr gyda manylion pob cyfraniad. <b>(Cyn 78)</b></p>	<p>ystyrir bod angen unrhyw newid arall.</p>
<p>Para 5.34 – ar yr ail linell, newid y gair 'bydd' i 'gall' oherwydd ni fyddwch wastad yn ceisio S106. <b>(Cyn 78)</b></p>	<p>Mae'r frawddeg yn ceisio cyfeirio at geisio rhwymedigaeth cynllunio, felly ystyrir fod y gair 'bydd' yn addas.</p>
<p>Para 5.38 - mae'r geirio'n awgrymu y gellir trafod y trothwyon ar bob cais, sy'n groes i bara 5.34 tabl 1 sy'n olrhain y trothwyon. Dylai'r paragraff hwn gyfeirio'n unig at y pwyntiau trothwy ar gyfer talu/gweithredu gwaith a drafodir fesul safle. <b>(Cyn 78)</b></p>	<p>Ystyrir fod para 5.38 yn egluro bod proses o drafod yn digwydd, ac felly ni ystyrir bod angen unrhyw newid arall.</p>
<p>Para 6.11 - mae'n awgrymu y dylai adolygiadau o gyfraniadau S106 gael ei ysgogi gan newid yn yr economi, er bod hyn yn arfer cyffredin; dengys gwaith diweddar a gynhaliwyd gan HBF mewn perthynas â CDLI Abertawe er i brisiau tai dyblu dros gyfnod o ddwy flynedd, roedd costau adeiladu wedi cynyddu tair gwaith dros yr un cyfnod. Dylai'r paragraff egluro y caiff holl ffactorau a chostau sydd ynghlwm wrth ddatblygiad eu hystyried fel rhan o unrhyw adolygiad o safbwynt hyfywedd. <b>(Cyn 78)</b></p>	<p>Nodwyd yr wybodaeth yma ac mae'r Cyngor yn derbyn y bydd datblygwyr efallai am gyflwyno tystiolaeth hyfywedd mwy cyfredol, ac y bydd angen addasu'r S106 efallai o ganlyniad. Er hynny, mae'r adran hon yn cyfeirio at sefyllfaoedd lle mae hyfywedd wedi arwain at ddim cyfraniad neu gyfraniadau llai, ac mae'n galluogi'r Cyngor i 'wirio' y sefyllfa os bydd hyfywedd yn gwella. Fel y cyfryw ni argymhellir diwygio'r paragraff.</p>
<p>Cynnwys manylion cyswllt Swyddog S106 y Cyngor. <b>(Cyn 78)</b></p>	<p>Mae para. 6.18 yn cyfeirio at y swyddog Cynllunio a Monitro – gellir cysylltu â'r swyddog hwn drwy'r cyfeiriad ebost yn Atodiad A.</p>
<p>Nid yw'n synhwyrol dibynnu ar ddatblygwyr i gynnal a chadw mannau chwarae, ac mae'n rhaid delio gyda'r rhain yn y dyfodol ar sail hirdymor. <b>(Cyn 525)</b>. Roedd y cynrychiolydd hwn hefyd yn croesawu swyddog monitro/cydymffurfio penodol a gofynnir i'r drefn yma barhau.</p>	<p>Nodwyd y sylwadau. Mae'r Cyngor yn cytuno fod trefniadau cynnal a chadw mannau chwarae yn y dyfodol yn bwysig ac yn cydnabod nad yw datblygwyr yn y sefyllfa orau i gyflawni'r rôl hon yn hirdymor. Mae'r pwnc Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored yn nodi trefniadau amgen, a bydd yn destun sylw pellach CCA Mannau Agored.</p>
<p>A yw'n bosib y bydd angen datblygiadau diwydiannol a masnachol newydd i gyfrannu tuag at dai fforddiadwy neu seilwaith arall? <b>(Cyn 1552)</b></p> <p>Hefyd mater capasiti'r swyddog S106 - angen bod yn ofalus o ran gorlethu neu o leiaf arafu'r broses.</p>	<p>Caiff pob cais ei ystyried ar ei deilyngdod unigol yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol. Mae polisi ar y ddwy lefel yn gosod cyd-destun o ran sicrhau tai fforddiadwy ac nid oes angen datblygiad masnachol i ddarparu tai fforddiadwy. Mae cyfraniadau tuag at seilwaith lleol megis gwella trafniadaeth er enghraifft yn bosib, ond byddant yn cael eu hystyried adeg cyflwyno'r cais.</p>

### 3.2 CCA Tai Fforddiadwy

#### 3.2.1 Grŵp Cyfeirio

3.2.2 Er mwyn paratoi CCA Tai Fforddiadwy, roedd y Cyngor wedi ceisio cyfraniad a chyfraniad Rhanddeiliaid Pynciau amrywiol, ac o'r rhain sefydlwyd y Grŵp Cyfeirio.

3.2.3 Roedd y Grŵp Cyfeirio'n cynnwys 7 aelod, oedd yn cynnwys cynrychiolwyr y gwasanaethau canlynol o fewn y Cyngor:

- Polisi Cynllunio
- Rheoli Datblygu
- Strategaeth Tai
- Tai Fforddiadwy
- Gwasanaethau Cyfreithiol

3.2.4 Gweler tabl B4 ar gyfer crynodeb o'r ymgysylltiad gyda'r Grŵp Cyfeirio yn ystod y broses o lunio'r CCA Drafft:

**Tabl B4 - Cyfraniad y Grŵp Cyfeirio (CCA Tai Fforddiadwy)**

Dyddiad	Pwy a Sut?
Mai 2018	Cyfarfodydd a gohebiaeth gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio i drafod gwybodaeth ddiweddaraf yn ymwneud â phynciau a chynllunio er mwyn hysbysu cefndir a chyd-destun y CCA, i drafod cwmpas y CCA a'r broses gysylltiedig, ac i adnabod a chytuno rhestr o Rhanddeiliaid Pynciau er mwyn ceisio adborth ganddynt cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
Mehefin 2018	Rhannwyd a thrafodwyd copïau drafft gweithio cychwynnol o'r CCA gyda'r Grŵp Cyfeirio er mwyn cytuno cynnwys y drafft gweithio i'w ddsbarthu i Rhanddeiliaid Pynciau. Derbyniwyd adborth cychwynnol gan y Rhanddeiliaid Pynciau oedd yn awgrymu newidiadau a rhannwyd hyn gyda'r Grŵp Cyfeirio. Trafodwyd materion penodol a nodwyd gan Rhanddeiliaid Pynciau gydag aelodau perthnasol y Grŵp Cyfeirio. Cafodd sylwadau'r Grŵp Cyfeirio eu hystyried wrth lunio'r Drafft ar gyfer yr Ymgynghoriad.
Gorffennaf 2018	Dosbarthwyd hysbysiad o'r cyfnod ymgynghori cyhoeddus i Fas Data'r CDLI. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori cyhoeddus am 6 wythnos rhwng 11 <sup>eg</sup> Gorffennaf a 21 <sup>ain</sup> Awst.
Awst 2018	Cafodd cynrychiolaethau a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cyhoeddus eu rhannu gyda'r Grŵp Cyfeirio a thrafodwyd materion penodol gydag aelodau perthnasol y Grŵp Cyfeirio. Roedd unrhyw newidiadau a gynigiwyd i'r CCA mewn ymateb i'r cynrychiolaethau a dderbyniwyd, hefyd wedi eu rhannu gyda'r Grŵp Cyfeirio a thrafodwyd unrhyw faterion gweddilliol ymhellach.
Medi 2018	Rhannwyd y CCA Drafft ar gyfer yr Ymgynghoriad oedd yn dangos newidiadau arfaethedig a gynigiwyd gan Weithgor y CDLI gyda'r Grŵp Cyfeirio. Hysbyswyd y Grŵp Cyfeirio am unrhyw faterion a godwyd gan Weithgor y CDLI cyn penderfynu ar gopi terfynol y CCA i'w cymeradwyo gan y Cabinet.

### 3.2.5 Rhanddeiliaid Pynciau

#### 3.2.6 Cyfrannodd y Rhanddeiliaid Pynciau canlynol:

- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) sy'n gweithredu yn yr ardal
- Grŵp Cynefin (sy'n cadw Cofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg)
- Tai Cymunedol Cymru
- Rhwydwaith Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol Cenedlaethol
- Gwasanaethau Priswyr Rhanbarthol
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
- Cyngor Benthycwyr Morgeisi/Cyllid y DU
- Cymdeithas Adeiladu'r Principality
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Cynlluniau Lleol Llywodraeth Cymru.

3.2.7 Gwahoddwyd y rhanddeiliaid hyn i roi adborth anffurfiol ar ddrafft gweithio o'r CCA cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol.

3.2.8 Hefyd rhannwyd drafft gweithio o'r CCA gyda'r Bartneriaeth Tai Strategol (SHP) ac fe'i cyflwynwyd i gyfarfod o'r SHP ar 6<sup>ed</sup> Mehefin 2018.

3.2.9 Cafodd sylwadau Rhanddeiliaid Pynciau eu hystyried, a rhoddwyd ymateb iddynt, gyda thrafodaethau pellach yn digwydd ar faterion penodol lle bo angen. Defnyddiwyd mewnbwn y Rhanddeiliaid Pynciau i hysbysu newidiadau i ddrafft gweithio'r CCA.

#### 3.2.10 Gweithgor y CDLL

3.2.11 Cafodd y CCA Drafft eu hystyried gan Weithgor y CDLI ar 22<sup>ain</sup> Mehefin 2018 a'u cymeradwyo ar gyfer yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

#### 3.2.12 Ymgynghoriad y CCA

3.2.13 Roedd cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn rhedeg o 11<sup>eg</sup> Gorffennaf hyd at 21<sup>ain</sup> Awst 2018 a derbyniwyd cynrychiolaethau gan y canlynol:

#### **Enw'r Cynrychiolydd (Rhif y Cynrychiolydd)**

- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartref (78)
- Cwmni Penseiri Hughes (Y Drenewydd) (1552)
- Cymdeithas Tai Canolbarth Cymru (4628)
- Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenystyrywaid (516)
- Cyngor Tref Trefaldwyn (517)
- Cyngor Cymuned Aber-miwl gyda Llandysul (542)
- Cyngor Tref Llanandras a Norton (525)
- Ymddiriedolaeth Afonydd a Chamlesi yng Nghymru / Glandwr Cymru (5704)



3.2.14 Gweler Tabl B5 isod ar gyfer manylion y prif faterion oedd yn deillio o'r ymgynghoriad ac ymatebion y Cyngor i'r materion hyn.

3.2.15 Cafodd y cynrychiolaethau ac ymatebion drafft y Cyngor iddynt eu hystyried gan Weithgor y CDLI yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7<sup>fed</sup> Medi 2018, ac wedi hynny gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9<sup>fed</sup> Hydref 2018.

**Tabl B5 - Prif Faterion yn deillio o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus (CCA Tai Fforddiadwy)**

<b>Cwestiwn 1: AH1 - Ydych chi'n cytuno fod y diffiniadau a mathau o dai fforddiadwy a amlinellir yn berthnasol i ardal CDLI Powys? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Gofyn eglurhad ynghylch a fydd ac ym mha amgylchiadau byddai hunanadeiladu'n cael ei gynnwys yn niffiniad tai fforddiadwy. <b>(Cyn 1552)</b>	Cyfeirir at hunanadeiladu dan ddiffiniad 'tai fforddiadwy canolraddol i'w gwerthu'. Er mwyn cymhwyso fel tai fforddiadwy at ddiben cynllunio, bydd angen i eiddo hunanadeiladu gydymffurfio â'r diffiniad a ddarperir a bydd yn amodol ar gyfyngiadau a thechnegau perthnasol. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
<b>Cwestiwn 2: AH2 - Ydych chi'n cytuno gyda'r ffynonellau data a'r cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i gyfrifo lefel fforddiadwyedd ar gyfer Powys? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Yn cwestiynu a yw pris tai cyfartalog yn adlewyrchu lefel fforddiadwyedd yn deg oherwydd amrediad y tai o fewn ardal yr Awdurdod. Yn awgrymu cyfrifiad heb gynnwys y tai mwyaf drud , fyddai'n fwy priodol <b>(Cyn 78)</b>	Seilir y ffigur a ddefnyddir ar gyfer pris tai cyfartalog ar Fynegai Prisiau Tai'r Gofrestrfa Tir, a gyfrifir mewn ffordd sy'n lleihau'r llwythiad a roddir i eiddo uchel eu gwerth, ac sy'n agos at y ffigur canolog. Ystyrir ei fod yn briodol defnyddio'r ffigur hwn i gymharu â lefelau incwm er mwyn dangos problemau o ran fforddiadwyedd tai yn yr ardal. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn anghytuno gyda'r ffigurau a ddefnyddir oherwydd nid ydynt yn adlewyrchu amrywiaethau lleol mewn prisiau a chyflogau. <b>(Cyn 525, Cyn 1552)</b>	Seilir y ffigurau a ddefnyddir ar y data sydd ar gael gan ffynonellau swyddogol y llywodraeth, ac mae cyfyngiadau ar y data sydd ar gael ar lefel fwy lleol. Byddwn yn parhau i adolygu argaeledd data, yn enwedig mewn perthynas ag adolygu'r Asesiad o'r Farchnad Tai Lleol. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn anghytuno gyda'r cyflog cyfartalog a ddefnyddir, gan ystyried taw gwaith ym maes amaethyddiaeth a diwydiant ysgafn ar yr isafswm cyflog cenedlaethol sydd yma. <b>(Cyn 576)</b>	Seilir y ffigurau a ddefnyddir ar y data sydd ar gael gan ffynonellau swyddogol y llywodraeth, a seilir ar gyfartaleddau. Nid yw'n bosib gwahaniaethu rhwng lefelau cyflog penodol na mathau o waith yn y cyfrifiad o ran lefel fforddiadwyedd. Fodd bynnag anelir amrediad y mathau o dai fforddiadwy a ddarperir at fodloni anghenion amrywiol cartrefi, ac ystyrir amgylchiadau unigol wrth asesu anghenion tai lleol. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn anghytuno gyda seilio'r ffigur ar	Seilir y ffigurau a ddefnyddir ar y data sydd ar

<p>gyfer incwm gwario gros aelwydydd ar ddau weithiwr llawn amser – nid yw'n ystyried teuluoedd un rhiant, gwaith rhan amser neu os bydd dim ond 1 mewn gwaith llawn amser. <b>(Cyn 516, Cyn 542, Cyn 525)</b></p>	<p>gael gan ffononellau swyddogol y llywodraeth, a seilir ar gyfartaleddau, ac felly nid yw'n bosib cymryd i ystyriaeth sefyllfaoedd pob cartref neu drefniadau gwaith. Fodd bynnag anelir amrediad y mathau o dai fforddiadwy a ddarperir at fodloni anghenion amrywiol cartrefi, ac ystyrir amgylchiadau unigol wrth asesu anghenion tai lleol. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Nid yw'r cyfrifiadau'n ystyried costau adeiladu. Dim ond LCC/ATS sy'n gallu cyllido tai fforddiadwy ac mae goblygiadau o ran hyfywedd os nad yw'n bosib sicrhau cyfraniad LCC neu'r Cyngor. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Seilir y ffigur a ddefnyddir ar gost prynu tŷ, ac fe'i hanelir at gadarnhau'r lefel y mae cartrefi, ar gyfartaledd, yn gallu fforddio prynu cartref. Nid yw costau adeiladu'n berthnasol i'r cyfrifiad hwn, fodd bynnag ystyriwyd y costau hyn yn asesiad hyfywedd y CDLI a thargedau'r polisi. Os nad yw'n bosib cadarnhau cyfraniad LCC neu ATS mae'r CCA yn caniatáu gwneud cyfraniadau ariannol yn lle darpariaeth ar y safle. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Mae'r ffigur a ddefnyddir ar gyfer nifer y bobl sydd angen tai fforddiadwy yn Nwyrain Maesyfed yn rhy isel. Dylid cyfeirio at arolwg tai Cyngor Tref Llanandras a Norton yn 2011 oedd wedi adnabod 80 unigolyn mewn angen, a chofrestr tai CSP yn 2011 oedd yn dangos 158 mewn angen. <b>(Cyn 525)</b></p>	<p>Daw'r ffigurau y cyfeirir atynt yn y CCA o Asesiad o'r Farchnad Tai Lleol (2010, a ddiweddarwyd yn 2014), sydd yn y broses o gael ei adolygu. Argymhellir cynnwys nodyn ar ôl y tabl yn egluro hyn, ac yn croesgyfeirio at 6.6.5 y CCA mewn perthynas â'r dystiolaeth a ddefnyddir wrth wneud penderfyniadau.</p>

**Cwestiwn 3: AH3 – Ydych chi'n cytuno gyda'r agwedd tuag at geisio cyfraniadau tai fforddiadwy gan ddatblygiadau tai'r farchnad arbenigol? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
<p>Mae'n fwy tebygol y bydd problemau hyfywedd mewn perthynas â'r nodweddion dylunio ychwanegol fydd eu hangen trwy rai darparwyr arbenigol. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Caiff problemau o ran hyfywedd safleoedd penodol eu hystyried wrth benderfynu ar lefel y cyfraniad tai fforddiadwy y gellir ei sicrhau gan gynlluniau tai arbenigol. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>

**Cwestiwn 4: AH4 – Ydych chi'n cytuno gyda'r enghreifftiau a roddwyd o amgylchiadau lle gellir ystyried darpariaeth amgen yn lle darpariaeth ar y safle? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
<p>Cefnogi atal israniad/ arfer fesul cyfnod safleoedd datblygu er mwyn osgoi cyfraniadau ac o ran diffinio dwysedd safleoedd i osgoi darparu 4 cartref yn lle pump ar safle 0.25 hectar. <b>(Cyn 525)</b></p>	<p>Nodwyd y gefnogaeth.</p>
<p>Gofyn am wario'r arian a dderbynnir yn yr un gymuned â'r safle</p>	<p>Caiff cyfraniadau ariannol eu gwario ar gynlluniau sydd ar gael yn yr un anheddiad;</p>

<p>gwreiddiol. <b>(Cyn 525)</b></p>	<p>fodd bynnag, os nad oes unrhyw gynlluniau ar gael yn yr un anheddiad, bydd y system rhaeadru a nodir ym mhara. 6.5.7 y CCA yn dod i rym. Bydd hyn yn sicrhau y caiff cyfraniadau eu gwario'n lleol lle bo'n bosib, neu os na, y caiff eu gwario mewn ffordd sy'n parhau i gefnogi darparu tai fforddiadwy yn ardal y CDLI. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Cais am fwy o wybodaeth ynghylch pwy fydd yn gorfod cyflwyno tystiolaeth (ac ar ba ffurf) y byddai cyfraniad mewn lleoliad gwahanol yn gwneud mwy o gyfraniad tuag at ddiwallu tai fforddiadwy lleol <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Bydd y Cyngor yn penderfynu a yw darpariaeth amgen ar wahân i ddarpariaeth ar y safle yn briodol ac os gellir ei gyfiawnhau mewn amgylchiadau penodol. Gall datblygwr gynnig darpariaeth amgen a chynnig tystiolaeth i gefnogi hyn, fodd bynnag, y Cyngor fydd yn penderfynu priodoldeb unrhyw gynigion. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Awgrymu y dylai blwch esiampl olaf para. 6.3.4 pwysleisio rôl botensial LCC gan eu bod yn chwarae rhan fwyfwy o ran datblygiadau'r farchnad. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Mae'r blwch esiampl olaf y cyfeirir ato'n ymwneud â thai canolradd i'w rhentu neu eu gwerthu, ac nid yw'n cyfeirio at ddatblygiadau'r farchnad fel y cyfryw. Rydym yn delio gyda chyfraniad LCC mewn datblygiadau'r farchnad trwy drosglwyddo unedau/tir gan ddatblygwyr yn y ddau flwch esiampl gyntaf. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>

**Cwestiwn 5: AH5 - Ydych chi'n cytuno gyda'r agwedd a ddefnyddir i benderfynu a fyddai darpariaeth oddi ar y safle'n briodol? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
<p>Cais am eglurder ar y trefniadau lle nad yw'r safle yn eiddo i'r un perchennog, ac ar drefniadau adran 106, a'r trafodaethau cyfreithiol ac ariannol sydd ynghlwm wrth hyn. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Y bwriad yw bod yr opsiwn o ddarparu tai fforddiadwy ar safle amgen yn berthnasol yn unig os bydd tir addas arall o dan reolaeth y datblygwr, fel yr eglurir ym mhara 6.4.1. Ni fydd defnyddio cyfraniadau oddi ar y safle'n briodol os nad yw'r tir yn eiddo i'r un perchennog. Byddai unrhyw ganiatâd mewn perthynas â darpariaeth oddi ar y safle'n amodol ar gytundeb adran 106 fel yr eglurir ym mhara. 6.4.2. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>

**Cwestiwn 6: AH6 - Ydych chi'n cytuno gyda'r dull a'r fformiwlâu i gyfrifo'r cyfraniad ariannol sydd ei angen? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
<p>Ni chredir fod y ffigurau o ran yr angen ar gyfer tai fforddiadwy'n agos at y ffigurau cywir. Gweler yr ymateb blaenorol i AH2. <b>(Cyn 525)</b></p>	<p>Eto mae'r ymateb yn cyfeirio at ffigurau o ran angen ar gyfer tai lleol sydd yn yr AFTL. Cyfeirir at ddefnydd o dystiolaeth o'r angen ar gyfer tai lleol er mwyn penderfynu pa fath o anheddle fyddai ei angen ar y safle ym mhara. 6.5.2. Gweler yr ymateb i Gwestiwn AH2 mewn perthynas â hyn.</p>
<p>Hwyrach y bydd risg, lle bo'n bosib i hynny ddioglydd, y bydd</p>	<p>Bydd y cyfraniad ariannol yn adlewyrchu'r % targed sydd ei angen yn ôl polisi H5 ar gyfer yr</p>

<p>datblygwyr yn ceisio safleoedd mewn ardaloedd lle mae llai o ofyn ar gyfer tai fforddiadwy. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>ardal is-farchnad lle lleolir y cais cynllunio. Ymddengys fod y gynrychiolaeth yn cyfeirio at y gofynion polisi a amlinellwyd eisoes ac a gymeradwywyd yn y CDLI, ac felly nid mater ar gyfer y CCA yw hyn. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
--	--

**Cwestiwn 7: AH7 - Ydych chi'n cytuno gyda'r esiamplau a roddwyd o ran sut gall y Cyngor wario'r cyfraniadau ariannol, a gyda'r system rhaeadru i'w defnyddio? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

Mater	Ymateb y Cyngor
<p>Awgrym i gynnwys croesgyfeiriad at CCA Rhwymedigaethau Cynllunio mewn perthynas â phennu cyfnod i ddefnyddio'r cyfraniadau. Gwrthwynebu'r cyfnod o 10 mlynedd i wario cyfraniadau, oherwydd mae'n llawer rhy hir mewn perthynas â thai fforddiadwy. <b>(Cyn 78)</b></p>	<p>Argymhellir cynnwys croesgyfeiriad at y manylion o ran y broses i drin cyfraniadau ariannol yn y Rhwymedigaethau Cynllunio ar ôl para. 6.5.7. Mae'r sylwadau mewn perthynas â'r cyfnod o 10 mlynedd i wario cyfraniadau'n ymwneud â chynnwys CCA Rhwymedigaethau Cynllunio, a rhoddwyd ymateb ar wahân i hyn.</p>
<p>Dylid defnyddio'r system rhaeadru i wario symiau gohiriedig hefyd ar gyfer mathau darpariaeth eraill. <b>(Cyn 78)</b></p>	<p>Diben y gynrychiolaeth hon yw defnyddio'r system rhaeadru ar gyfer darpariaeth oddi ar y safle ar safle amgen i alluogi datblygwr i ddarparu tai fforddiadwy ar safle amgen tu allan i'r ardal leol. O ran yr opsiwn oddi ar y safle, bwriedir hyn ar gyfer sefyllfaoedd lle mae safle arall ar gael yn yr ardal o fewn rheolaeth y datblygwr, ac felly ni fyddai'n briodol caniatáu ehangu'r ardal trwy ddefnyddio'r system rhaeadru. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Dylid cyfyngu'r gwariant i'r ardal leol yn unig, yn hytrach nag arfer y system rhaeadru, oherwydd mae'n anodd gweld sut na fyddai'n bosib defnyddio cyfraniadau ariannol wrth ystyried y gofyn am dai, y potensial i uwchraddio stoc bresennol neu eiddo gwag, a'r ymrwymiad i adeiladu tai Cyngor. <b>(Cyn 517)</b></p>	<p>Caiff cyfraniadau ariannol eu gwario ar gynlluniau sydd ar gael o fewn yr un anheddiad, fodd bynnag yn achos sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw gynlluniau ar gael yn yr un anheddiad, defnyddir y system rhaeadru a amlinellir ym mhara. 6.5.7. Trwy hyn gellir sicrhau y caiff cyfraniadau eu gwario lle bo'n bosib, ac os nad yw'n bosib, y cânt eu gwario mewn ffordd sy'n parhau i gefnogi darparu tai fforddiadwy yn ardal y CDLI. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Mae APCBB yn rhan o'r ATS yn debyg i weddill y Sir. Dylid gallu gwario cyfraniadau mewn aneddiadau gerllaw o fewn ardal APCBB. Yn awgrymu cytundeb cyfatebol gydag APCBB. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Mae geirio presennol a) a b) y system rhaeadru eisoes yn caniatáu gwario cyfraniadau yn yr un anheddiad, a lle nad oes unrhyw gynlluniau ar gael, o fewn yr un gymuned, sy'n golygu y gellir gwario cyfraniadau mewn aneddiadau /cymunedau sy'n croesi'r ffin rhwng ACLI Powys ac ardal PCBB. Argymhellir diwygio geirio adran f) i egluro fod y cam terfynol hwn yn berthnasol i ardaloedd gweddilliol PCBB. Mae'r system rhaeadru'n gweddu i'r system rhaeadru a ddefnyddir gan PCBB.</p>

<b>Cwestiwn 8: AH8 - Ydych chi'n cytuno gyda'r ffynonellau tystiolaeth a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i benderfynu'r angen lleol ar gyfer tai? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Mae'r AFTL pedair blynedd allan o ddyddiad yn barod. Awgrymu y dylai para. 6.6.5 nodi'n glir y defnyddir tystiolaeth ddiweddaraf 2018 unwaith mae ar gael, a nodi'r amserlen ar gyfer y diweddariad nesaf. <b>(Cyn 78)</b>	Mae'r CCA yn nodi y bydd y dystiolaeth ddiweddaraf yn cael ei chyfeirio at y Cyngor, felly caiff ei defnyddio unwaith mae ar gael i'w defnyddio i wneud penderfyniadau. Ystyrir fod yr amserlenni disgwylidig ar gyfer diweddariadau pellach, h.y. bob 2 flynedd, yn glir. Ni argymhellir unrhyw newidiadau mewn perthynas â'r gynrychiolaeth hon; fodd bynnag argymhellir diweddarau'r amserlen a nodir ym mhara. 6.6.5 i adolygu'r AFTL oherwydd fe'i disgwylir erbyn Ebrill 2019 bellach.
Cefnogi adolygu'r AFTL, gan nodi o'r hyn sy'n hysbys ar lefel leol, fod peth o'r data'n anghywir efallai. <b>(Cyn 517)</b>	Mae'r AFTL ar y gweill yn barod fel yr eglurir yn y CCA a bydd yn darparu tystiolaeth gyfredol ar anghenion tai lleol. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn amodol ar ddiwygio'r Gofrestr Tai Cyffredin, datblygu a hyrwyddo'r gofrestr tai fforddiadwy, a dulliau tryloyw ac amserol i gynnal arolygon o anghenion tai lleol i ddiwallu bylchau mewn gwybodaeth. Mae'r AFTL yn darparu'r unig gipolwg ac nid yw'n bosib treiddio i unrhyw lefel arwyddocaol i hysbysu ceisiadau o ran safleoedd penodol. <b>(Cyn 1552)</b>	Mae'r gynrychiolaeth hon yn cyfeirio at broblemau o ran ffynonellau tystiolaeth a nodir gan y CCA i'w defnyddio mewn trafodaethau, ac yn cyfeirio at gamau gweithredu sy'n mynd tu hwnt i gwmpas y CCA yma. Cyfeiriwyd y materion hyn at yr ATS. Mae'r CCA yn hyrwyddo defnyddio Cofrestr Tai Fforddiadwy Tai Teg yn y broses cynllunio, a defnyddir yr AFTL i hysbysu penderfyniadau cynllunio. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.

<b>Cwestiwn 9 AH9 - Ydych chi'n cytuno gyda'r trefniadau a'r gofynion o ran gwybodaeth er mwyn asesu hyfywedd ariannol datblygiad penodol a chynigion i adolygu hyfywedd? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Cefnogi dull o weithio trylwyr o ran sicrhau y caiff tai fforddiadwy eu hadeiladu yn unol â gofynion S106 ac yn cytuno y dylid adeiladu tai fforddiadwy a thai'r farchnad yr un pryd, ac ni ddylid gorffen tai'r farchnad gyntaf. Os bydd datblygwr o'r farn nad yw hyn yn hyfyw, dylid tynnu'r cais yn ôl <b>(Cyn 517)</b>	Mae'r CCA yn egluro na fydd yn dderbyniol cwblhau holl dai'r farchnad agored cyn gorffen y tai fforddiadwy, er ar yr un pryd caniatáu adeiladu cyfran o dai'r farchnad. Nod yr agwedd hyblyg hon yw galluogi datblygiadau i aros yn hyfyw. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Mae gofyn cadarnhad gan y Cyngor am y capasiti a'r arbenigedd i allu cynnal asesiad hyfywedd ac yn awgrymu y gall yr ATS arwain ar hyn efallai. <b>(Cyn 1552)</b>	Eglurir y bydd y Cyngor yn asesu'r gwerthusiad hyfywedd ariannol, ond dim ond lle bo'n bosib (para. 6.6.9) ac felly bydd yn dibynnu ar y capasiti a'r arbenigedd sydd ar gael o fewn y Cyngor ar y pryd. Os nad yw'n bosib, comisiynir y GPRh i wneud hyn. Disgwylir i Reolwyr Datblygu arwain ar unrhyw drafodaethau. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.

<p>Nid yw'n dilyn y ddatl ar leihau amserlenni ar gyfer datblygiad oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â sicrhau y cyflenwir datblygiad o fewn amserlen polisi, ac nid oherwydd rhesymau hyfywedd ariannol. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Fel yr eglurir ym mhara. 6.6.10, diben lleihau amserlenni ar gyfer datblygiad lle cytunwyd cyfraniad isel/dim cyfraniad yw galluogi adolygu'r sefyllfa o ran hyfywedd. Oherwydd gall safle parhau i elwa o ganiatâd sy'n bodoli neu a weithredwyd dros gyfnod hir, fodd bynnag, yn y cyfamser, hwyrach y bydd hyfywedd y datblygiad wedi gwella neu newid. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
--	---

**Cwestiwn 10 AH10 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfarwyddyd ar asesu priodoldeb lleoliad, maint a math y tai fforddiadwy ar safleoedd eithriadau mewn Trefi a Phentrefi Mawr? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
<p>Mor bell ag y gall y seilwaith dderbyn y fath datblygiadau, ac y dylid asesu estyniadau synhwyrol o hyd at 5 tŷ o ran effaith ar gyfanrwydd yr anheddiad, seilwaith trafndiaeth/priffyrdd, effaith ar dirwedd/treftadaeth safleoedd ac effaith ar amwynder aneddleoedd presennol. <b>(Cyn 517)</b></p>	<p>Rhoddir ystyriaeth i'r materion hyn lle bo'n berthnasol, wrth asesu cynigion ar gyfer pob math o safleoedd eithriadau. Dylid darllen y CCA ar y cyd â pholisïau'r CDLI, sy'n cynnwys polisïau yn ymwneud â'r materion hyn. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Yn ystyried bod achos dros safleoedd eithriadau mewn lleoliadau gwledig. Anawsterau o ran adeiladu anheddle ar ffermdir gan aelodau'r teulu, ac felly'n atal ffermwyr iau rhag aros ar y tir. <b>(Cyn 517)</b></p>	<p>Mae aneddleoedd ar ffermdir ar gyfer ffermwyr, a gyfeirir atynt ym maes cynllunio fel Aneddleoedd Mentrau Gwledig, yn destun sylw dan gyfarwyddyd cenedlaethol (PCC a TAN6). Nid yw'r CCA yn rhoi cyfarwyddyd ar Aneddleoedd Mentrau Gwledig oherwydd nid ydynt yn dod o dan ddiffiniad Tai Fforddiadwy, ac maent yn cael eu hasesu mewn ffordd wahanol o safbwynt cynllunio. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>
<p>Geirio para. 7.4 mewn perthynas ag ystyried cymeriad ac ymddangosiad y dirwedd gyffiniol – dylai fod yn berthnasol boed yn dai fforddiadwy ar safleoedd eithriadau ai peidio. <b>(Cyn 1552)</b></p>	<p>Nod cyfarwyddyd 7.4 yw sicrhau y telir sylw at effaith dirweddol/gweledol wrth ddewis safleoedd eithriadau ar gyfer tai fforddiadwy, gan osgoi'r safleoedd mwyaf sensitif ac ystyried safleoedd amgen. Bydd y broses asesu a amlinellir ym 4.2.32 o ran Polisi DM4 y CDLI yn berthnasol i safleoedd eithriadau oherwydd maent tu allan i ffiniau Trefi a Phentrefi Mawr. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.</p>

**Cwestiwn 11: AH11 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfarwyddyd ar benderfynu a ddylid ystyried safle fel safle mewnlenni neu fel estyniad synhwyrol mewn Pentrefi Bach? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

Mater	Ymateb y Cyngor
Nodi taw dim ond datblygiadau o lai na 5 uned/0.25 fydd yn cael eu hystyried, ac yn ystyried fod hyn yn synhwyrol o safbwynt anghenion a seilwaith Pentrefi Bach <b>(Cyn 1552)</b>	Nodwyd y gefnogaeth. Mae'r cyfarwyddyd o fewn y CCA yn cefnogi Polisi H1 y CDLI mewn perthynas â thair fforddiadwy mewn Pentrefi Bach.

**Cwestiwn 12: AH12 - Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfarwyddyd ar y profion i'w defnyddio i benderfynu a lleolir cynnig mewn Anheddiad Gwledig? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

Mater	Ymateb y Cyngor
Yn pwysleisio'r angen ar gyfer gwybodaeth gadarn a dibynadwy o'r gofrestr tai fforddiadwy lleol i benderfynu a yw'n briodol darparu tai fforddiadwy yn yr ardaloedd hyn. <b>(Cyn 1552)</b>	Bydd angen tystiolaeth cartrefi unigol gydag angen ar gyfer tai lleol i gyfiawnhau tai fforddiadwy mewn Anheddiadau Gwledig, a defnyddir y Gofrestr Tai Fforddiadwy (Tai Teg), fel yr eglurir yn Atodiad C. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.

**Cwestiwn 13 AH13 - Ydych chi'n cytuno gyda'r cyfarwyddyd a'r egwyddorion i'w defnyddio wrth asesu Cynlluniau Tai Fforddiadwy? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

Mater	Ymateb y Cyngor
Cais am eglurhad pellach ar hunanadeiladu neu lety arbenigol. <b>(Cyn 1552)</b>	Mae enghraifft o'r gofynion ar gyfer Cynllun Tai Fforddiadwy er mwyn datblygu tŷ canolradd unigol i'w werthu gan unigolyn (hunanadeiladu) yn rhan o Atodiad F y CCA. Mae'r CCA yn cyfeirio at drefniadau ar gyfer tai'r farchnad arbenigol, ond nid yw'n bosib rhoi cyfarwyddyd manwl ar Gynlluniau Tai Fforddiadwy ar gyfer cynlluniau pwrpasol felly fel rhan o'r CCA. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn gofyn ystyried llety mwy ar gyfer cartrefi estynedig trwy adolygu uchafswm maint yr eiddo neu drefniadau eraill (e.e. caniatáu defnyddio unedau un talcen fel uned unigol, ac wedyn mynd yn ôl i ddwy uned pan nad oes ei angen bellach). <b>(Cyn 1552)</b>	Mae gofyn i faint tŷ fforddiadwy adlewyrchu'r angen am dai a nodwyd yn yr ardal leol. Seilir yr uchafswm maint a amlinellir yn y CCA ar gartref o 7 unigolyn, ac felly disgwylir iddo fodloni'r angen yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd. Bydd angen i'r asesiad o angen am dai lleol ystyried anghenion y cartrefi dan sylw. Bydd angen ystyried priodoldeb unrhyw drefniadau o safbwynt cynllunio. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn gofyn gwybodaeth ACG mewn perthynas â llety fflatiau gan ystyried y galw mawr am y math yma o lety. <b>(Cyn 1552)</b>	Argymhellir ychwanegu arwynebedd llawr tybiannol ACG ar gyfer fflatiau i'r tabl dan bara. 8.16.

**Cwestiwn 14: AH14 - ydych chi'n cytuno gyda'r broses ar gyfer asesu'r angen lleol am dai o ran meddianwyr arfaethedig? Os na, eglurwch pam os gwelwch**

<b>yn dda.</b>	
<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Cefnogi cryfhau'r cyfarwydded ar gyfer diwallu'r angen am dai lleol a chynnal cyfyngiadau o ran deiliadaeth oni phrofir yn ddiymwad nad oes ei angen bellach. <b>(Cyn 517)</b>	Nodwyd y gefnogaeth.
Tai 2 neu 3 ystafell wely gyda 3ydd ystafell wely fach yw mwyafrif y datblygiadau diweddar, heb ddigon o le ar gyfer teulu sy'n tyfu, mae angen llety ar gyfer teuluoedd. Nid yw'r CCA yn gwneud unrhyw beth i annog cartrefi cynaliadwy i gadw teuluoedd mewn pentrefi. <b>(Cyn 542)</b>	Mae para. 8.16 y CCA yn disgwyl tai fforddiadwy ar ddatblygiadau'r farchnad i fod yn amrywiol eu maint ac i dalu sylw at safonau gofod ACG. Mae'r asesiad o angen ar gyfer tai lleol (Atodiad C) hefyd yn caniatáu i berchnogion presennol tai fforddiadwy drosglwyddo i dai fforddiadwy eraill i ddiwallu amgylchiadau wrth iddynt newid. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Gweler sylwadau dan AH13. <b>(Cyn 1552)</b>	Gweler yr ymateb i AH13 uchod.

**Cwestiwn 15: AH15 – Ydych chi'n cytuno gyda'r agwedd tuag at sicrhau darpariaeth, fforddiadwyedd ac argaeledd tai fforddiadwy ym mhob cam o'r broses cynllunio? Os na, eglurwch pam os gwelwch yn dda.**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Dargyfeirio o'r CDLI trwy nodi y gall tai fforddiadwy /anghenion lleol fod yn gartref am fywyd, ac mae angen adlewyrchu hyn wrth ystyried ceisiadau yn y dyfodol i addasu'r uned, ond i aros o fewn paramedrau diffiniedig <b>(Cyn 517)</b>	Mae CCA para. 8.18 yn egluro y caiff ceisiadau cynllunio ar gyfer estyniadau yn y dyfodol eu hasesu fesul achos gan ystyried yr angen lleol a'r effaith ar fforddiadwyedd. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Cefnogi tynnu nôl hawliau datblygu a gytunwyd, a'r gallu i wrthod ceisiadau ar sail tan-ddatblygu, ac adeiladu tai'r farchnad a thai fforddiadwy'r un pryd. Mae angen gorfodi'r gofynion yn effeithiol ac yn drwyadl a gofyn am fanylion trefniadau monitro i sicrhau cydymffurfriad. <b>(Cyn 517)</b>	Rheolwyr Datblygu sy'n gyfrifol am brosesau gorfodi a monitro, gan gynnwys unrhyw amodau a rhwymedigaethau cynllunio. Bydd adroddiadau o unrhyw achos o dorri'r amodau'n destun ymchwiliad a chymerir camau gorfodi lle bo angen, fel y nodir yn adran 8.32 y CCA. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Effaith niweidiol capio'r pris adwerthu ar 72% o werth y farchnad agored; anfantais ar gyfer prynwyr tro cyntaf sydd am symud i fyny'r ysgol, yn eu hatal rhag symud ymlaen, ac ar ryddhau'r anheddle yn ôl i'r farchnad. <b>(Cyn 542)</b>	Mae diffiniad TAN 2 o dai fforddiadwy canolradd yn mynnu fod prisiau/rhent yn llai na phrisiau neu rent tai'r farchnad. Trwy gyfyngu gwerth gwerthu/ad-werthu anheddle fforddiadwy, bydd yn cynnig dull i sicrhau fod y tŷ'n hygyrch ac yn parhau'n hygyrch i'r sawl sydd angen tŷ lleol. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn amodol ar gapasiti o fewn y system. Yn gofyn eglurhad am rôl a chapasiti'r Swyddog S106 i ddelio gyda hyn a rhwymedigaethau	Rheolwyr Datblygu sy'n gyfrifol am y prosesau cynllunio a ddisgrifir yn y rhan hon o'r CCA. Eglurir rôl y Swyddog Cynllunio a Monitro mewn perthynas â chytundebau adran 106 yn CCA Rhwymedigaethau Cynllunio. Ni



cynllunio eraill. <b>(Cyn1552)</b>	argymhellir unrhyw newidiadau.
------------------------------------	--------------------------------

**Cwestiwn 16: AH16 - Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud nad yw'r cwestiynau uchod yn delio â nhw, dylid eu nodi yma os gwelwch yn dda:**

<b>Mater</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Mewn perthynas â'r cyfarwyddyd ar ganiatâd sy'n gyfyngedig o ran amser i alluogi adolygu hyfywedd, hwyrach y bydd safleoedd hefyd yn dod yn llai hyfyw. Sylwadau ar gyfarwyddyd S106 LIC (2009) ac addasrwydd y dulliau adolygu. Yn nodi bod geirio'r CCA yn cynnig hyblygrwydd. Gofyn am groesgyfeirio at gyfarwyddyd LIC <b>(Cyn 78)</b>	Ystyrir ei fod yn briodol (para. 6.6.10) i ddefnyddio cyfyngiad amser llai i gychwyn a/neu reolaeth dros orffen er mwyn galluogi parhau i adolygu hyfywedd datblygiad, ac mae'r Cyngor yn ymwybodol o benderfyniadau apêl sy'n cefnogi'r agwedd hon. Mae cyfarwyddyd LIC ar gyflenwi tai fforddiadwy trwy gytundebau adran 106 a gyfeirir ato'n rhan o Atodiad A y CCA. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Mae'n werth nodi yn y ddogfen fod LIC ar hyn o bryd yn adolygu Tai Fforddiadwy, ac felly gall newidiadau ddigwydd dros y blynyddoedd nesaf. <b>(Cyn 78)</b>	Argymhellir cyfeirio at yr adolygiad o Dai Fforddiadwy dan drefn Monitro ac Adolygu ym mhara. 9.2 y CCA.
Mae cyflawnadwyedd yn broblem sylfaenol. Mae angen i'r Cyngor a'i bartneriaid strategol ystyried opsiynau eraill er mwyn ysgogi cyflenwad o dir 5 mlynedd, ac adnabod a datblygu safleoedd addas, a dulliau eraill i fodloni amcanion strategol o ran cyflenwi tai. <b>(Cyn 1552)</b>	Nodwyd y gefnogaeth a'r sylwadau Nod y CCA hyn yw cynorthwyo cyflenwi tai fforddiadwy trwy bolisïau cynllunio'r CDLI. Mae'r camau y mae'r Cynrychiolydd yn galw amdanynt yn mynd tu hwnt i gwmpas y CCA yma. Cyfeiriwyd y materion hyn at sylw'r ATS. Ni argymhellir unrhyw newidiadau.
Yn gofyn eglurhad ar sut y caiff ceisiadau ar gyfer 100% tai fforddiadwy a ddarperir gan LCC eu prosesu a'u rheoli adeg y cais cynllunio, oherwydd mae anghysondebau ar hyn o bryd (darparwyd enghreifftiau). Byddai'n well cael dim cyfyngiadau oherwydd yr effaith ar fenthycia. <b>(Cyn 4268)</b>	Argymhellir ychwanegu nodyn ar ôl para. 8.6 i egluro'r gofynion o safbwynt datblygiad gan LCC. Mae'n golygu lle bydd LCC yn datblygu safle sy'n eiddo iddo o fewn y ffin datblygu, bydd amodau sydd ynghlwm wrtho'n ymwneud â thai fforddiadwy yn golygu bod angen % y tai fforddiadwy sydd eu hangen dan bolisi H5. Mae'r agwedd hon yn dderbyniol i'r cynrychiolydd.

### **3.3 CCA ar Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth**

#### **3.3.1 Grŵp Cyfeirio**

3.3.2 Er mwyn paratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ar Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth, gofynnodd y Cyngor i amrywiol Rhanddeiliaid Pwnc gymryd rhan a chyfranogi, ac o'r rhain lluniodd y Cyngor Grŵp Cyfeirio.

3.3.3 Roedd y Grŵp Cyfeirio yn cynnwys chwe aelod gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau Cyngor canlynol, ac o sefydliadau allanol:

- Polisi Cynllunio
- Rheoli Datblygu
- Cefn Gwlad
- Cyfoeth Naturiol Cymru

3.3.4 Crynhoir y gwaith ymgysylltu a wnaed â'r Grŵp Cyfeirio wrth baratoi'r Canllawiau Drafft yn nhabl B6:

**Tabl B6 – Rôl y Grŵp Cyfeirio (CCA ar Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth)**

<b>Dyddiad</b>	<b>Pwy a Sut?</b>
Dechrau Ebrill tan ddechrau Mai 2018	Wedi cysylltu ag aelodau'r Grŵp Cyfeirio i gadarnhau'r aelodau, y trafodaethau ac i gytuno ar rôl ac amserlen ac yn y blaen.
Mai 2018	Trafod sgôp arfaethedig yr CCA, y nodau, strwythur a'r prif elfennau. Drafft cyntaf yn barod i ymgynghori â'r Rhanddeiliaid Pwnc arno. Telegynhadledd â'r Grŵp Cyfeirio ar 10 Mai. E-bost at y Rhanddeiliaid Pwnc yn eu hysbysu o'r cyfnod ymgynghori sydd mewn golwg.
Mai a Mehefin 2018	Cylchredeg y drafft cyntaf i'r Rhanddeiliaid Pwnc ar gyfer ymgynghori, i redeg rhwng 25 Mai a 8 Mehefin 2018.
Mehefin – Gorffennaf 2018	Telegynhadledd â'r Grŵp Cyfeirio ar 13 Mehefin i ystyried ymatebion y Rhanddeiliaid Pwnc. Hefyd i gadarnhau amserlen ar gyfer gweddill y broses. Cyfathrebu â'r Grŵp Cyfeirio i ystyried a chadarnhau diwygiadau priodol. Diwygio'r CCA drafft yn barod i ymgynghori'n gyhoeddus arnynt. Y CCA drafft yn cael eu cyflwyno i'r Gweithgor LDP i'w cymeradwyo cyn ymgynghori'n gyhoeddus arnynt.
Gorffennaf 2018	Hysbysiad y cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn cael ei gylchredeg i rai ar y gronfa ddata LDP. Chwe wythnos o ymgynghori cyhoeddus rhwng 11 Gorffennaf a 21 Awst.
Awst – Medi 2018	Telegynhadledd â'r Grŵp Cyfeirio ar 29 Awst i drafod y sylwadau ac i gytuno ar ba newidiadau sydd angen eu gwneud. Hefyd i gadarnhau amserlen ar gyfer gweddill y broses. Diwygio'r CCA drafft yn barod i'w mabwysiadu.
Medi 2018	Y CCA drafft ymgynghorol, yn dangos y newidiadau arfaethedig, yn cael eu cyflwyno i'r Gweithgor LDP a'u rhannu â'r Grŵp Cyfeirio. Y

	Grŵp Cyfeirio yn cael eu hysbysu o unrhyw faterion a godwyd gan y Gweithgor LDP cyn cytuno'n derfynol ar y CCA i'w rhoi gerbron y Cabinet.
--	--

### 3.3.5 Rhanddeiliaid Pwnc

3.3.6 Roedd y grŵp Rhanddeiliaid Pwnc mwy'n cynnwys 41 o aelodau ychwanegol, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau allanol canlynol:

- Y Gwasanaeth Gwybodaeth Bioamrywiaeth (BIS)
- Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain
- Grŵp Adar Brycheiniog
- Grŵp Gweision Neidr Brycheiniog
- Grŵp Daeareg Brycheiniog
- Grŵp Mamaliaid / Ystlumod Brycheiniog
- Grŵp Gwyfynnod Brycheiniog
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Brycheiniog
- Arolwg Daearegol Prydain
- Butterfly Conservation
- Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd
- Grŵp RIGS Canolbarth Cymru
- Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys
- Coed Cymru
- Glandwr Cymru – yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru
- Grŵp Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau Powys / Llandinam Lives
- Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd / Partneriaeth Camlesi Trefaldwyn
- Grŵp Tylluanod Gwyn Sir Drefaldwyn
- Grŵp Gwyfynnod Sir Drefaldwyn
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn
- Natural England
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Plantlife
- Grŵp Creaduriaid Di-asgwrn Cefn Sir Faesyfed
- Grŵp Mamaliaid Sir Faesyfed
- Grŵp Gwyfynnod Sir Faesyfed
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Faesyfed
- Rhayader By Nature
- RSPB Cymru
- The Inland Waterway Association
- Ymddiriedolaeth Gwarchod Afon Gwy
- Coed Cadw
- Llywodraeth Cymru
- Ymddiriedolaeth Barcutiaid Cymru
- Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg
- Environment Agency England
- Ymddiriedolaeth Ornitholeg Prydain
- Cadwraeth Amffibiaid ac Ymlusgiaid
- Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent
- Ymddiriedolaeth Afonydd yr Hafren

3.3.7 Gwahoddwyd y rhanddeiliaid hyn i roi adborth anffurfiol ar ddrafft gweithio o'r CCA cyn y cam ymgynghori cyhoeddus ffurfiol.

3.3.8 Cafodd sylwadau gan y Rhanddeiliaid Pwnc eu hystyried a rhoddwyd ymateb iddynt, gyda thrafodaeth bellach yn digwydd ar faterion penodol lle bo angen. Defnyddiwyd mewnbwn y Rhanddeiliaid Pwnc i oleuo newidiadau i ddrafft gweithio'r CCA.

### 3.3.9 Gweithgor y LDP

3.3.10 Ystyriwyd y CCA Drafft gan y Gweithgor LDP ar 22 Mehefin 2018 a'u cymeradwyo ar gyfer Ymgynghori Cyhoeddus.

### 3.3.11 Ymgynghori ar y CCA

3.3.12 Rhedodd y cyfnod ymgynghori cyhoeddus o'r 11 Gorffennaf tan 21 Awst 2018 a derbyniwyd sylwadau gan y canlynol:

#### Enw'r Ymatebydd (Rhif yr Ymatebydd)

- Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys (27)
- Ymddiriedolaeth Cwm Elan (222)
- Cyngor Cymuned Mochdre gyda Phenstrywaid (516)
- Cyngor Cymuned Abermiwl (gyda Llandyssil) (542)
- Yr Awdurdod Glo (1481)
- Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt Powys (5201)
- Glandwr Cymru / yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru (5704)
- Sarah Bond (6160)
- CPRW (Cangen Brycheiniog a Maesyfed) (6235)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (7076)

3.3.13 Nodir y prif faterion a gododd o'r ymgynghoriad, ac ymateb y Cyngor i'r rhain, yn Nhabl B7 dros y dudalen.

3.2.14 Ystyriwyd y sylwadau ac ymatebion drafft y Cyngor gan y Gweithgor LDP yn ei gyfarfod ar 7 Medi 2018, ac yna gan Gabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Hydref 2018.

### Tabl B7 – Y prif faterion a gododd o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus (CCA ar gyfer Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth)

<b>Cwestiwn 1: BG1 – ydy'r wybodaeth CCA yn yr ar gyfer Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth wedi'i chyflwyno'n glir a rhesymegol i'r gwahanol gynulleidfaoedd (h.y. datblygwyr proffesiynol ac ymgeiswyr cynllunio domestig (di-broffesiynol)?</b>	
<b>Mater dan sylw</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Dogfen fawr sy'n debygol o deimlo'n feichus, yn enwedig i'r cyhoedd a fyddai'n gofyn am ganiatâd ar gyfer datblygiad domestig bach. Angen bod yn gliriach pa rannau sydd angen i ymgeiswyr am wahanol fathau o ddatblygiad eu darllen. <b>(Ymatebydd 5201)</b>	Nodir y sylwadau. Eglurhad i'w ychwanegu at ddechrau adran 8 'Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn y Broses Gynllunio'.
Tabl 1 – er eglurder, dylid cynnwys llinell lorweddol dywyll rhwng yr is-adrannau	Bydd Tabl 1 yn cael ei ddiwygio i fod yn gliriach.

safleoedd, cynefinoedd a rhywogaethau. <b>(Ymatebydd 5201)</b>	
Paragraff 6.31 – awgrymu symud y paragraff hwn o dan Tabl 1 i wneud iddo sefyll allan. <b>(Ymatebydd 5201)</b>	Wedi'i gytuno.
Yn amodol ar sylwadau penodol, ymddengys bod y ddogfen yn briodol. Gallai cynnwys delweddau helpu. <b>(Ymatebydd 5704)</b>	Nodir y sylwadau.
Na, mae'n bryder bod pobl yn meddwl mai dim ond ar gyfer ymgeiswyr cynllunio y mae'r CCA o gofio eu bod hefyd yn ystyriaeth bwysig wrth benderfynu ceisiadau cynllunio ac yn berthnasol i Swyddogion Cynllunio, Arolygwyr Cynllunio a'r cyhoedd yn gyffredinol. <b>(Ymatebydd 6160)</b>	Nodir y sylwadau. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr CCA yn nodi'n glir eu bod yn gyngor perthnasol ac yn ystyriaeth bwysig i bawb sy'n rhan o'r broses gynllunio.
Mae angen diwygio'r testun i roi sylw i: <ul style="list-style-type: none"> <li>• testun ailadroddus.</li> <li>• trefn wael y paragraffau gyda rhai pynciau.</li> <li>• geirio gwael neu ddryslyd mewn rhai paragraffau.</li> <li>• gwallau wrth groesgyfeirio at rifau paragraff, gan gynnwys Atodiad C.</li> <li>• testun wedi'i adael allan, sy'n bryder.</li> </ul> <b>(Ymatebydd 6160)</b>	Nodir y sylwadau. Bydd gwaith golygu'n cael ei wneud i roi sylw i'r pryderon hyn.
Mae'r ffaith bod dau fersiwn o'r CCA ar gael ar wefan Powys yn ddryslyd. <b>(Ymatebydd 6235)</b>	Roedd y fersiwn gywir ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ar gael ar brif dudalen yr LDP, ac wedi ei labelu felly, ar ddechrau'r cyfnod ymgynghori.
Mae'r testun weithiau'n amwys, yn hirwyntog ac yn ailadroddus. <b>(Ymatebydd 6235)</b>	Nodir y sylwadau. Bydd gwaith golygu'n cael ei wneud.
Mae'r gynulleidfa'n cynnwys yr holl bartïon budd. Dylai ganolbwyntio ar egluro sut y bydd y ddeddfwriaeth, polisiau a'r canllawiau presennol ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn cael eu hymgorffori ym mhroses gynllunio Powys er mwyn helpu'r holl bartïon budd.  Mae angen i gynulleidfaeoddyd wybod sut yn union y bydd cyfrifoldebau'r broses gynllunio'n cael eu dyrannu rhwng PCC ac NRW. Nid yw'n glir ac awgrymwn drafodaeth a chytundeb manwl gyda NRW i ddatrys hyn. <b>(Ymatebydd 6235)</b>	Bydd y Cyngor yn adolygu'r CCA i sicrhau bod y rolau wedi eu diffinio'n glir.
Mae'r fformat yn gyffredinol wedi'i drefnu'n dda ac mewn dilyniant sy'n gwneud synnwyr. (Sylwadau ar fanylion wedi eu rhoi mewn fersiwn <i>tracked changes</i> o'r CCA). <b>(Ymatebydd 7076)</b>	Nodir y sylwadau.

**Cwestiwn 2: BG2 – Ydy'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddir yn y CCA yn briodol i'r gwahanol gynulleidfaeoddyd hyn?**

<b>Mater dan sylw</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
Drwy gydol y ddogfen, dylid defnyddio "safle datblygu arfaethedig" yn lle "safle datblygu".	Nodir y sylwadau. Y testun i'w ddiwygio i adlewyrchu hynny.

<b>(Ymatebydd 5201)</b>	
<p>Tabl 1 – Mae chwe cholofn olaf y tabl hwn yn ddrislyd. Er enghraifft, gallai'r ymgeisydd feddwl bod modd anwybyddu safle a restrir o dan "<i>Dim gwarchodaeth statudol</i>". Argymhellwn fod y chwe cholofn olaf yn cael eu tynnu allan o Dabl 1 <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Mae'r Cyngor wedi adolygu Tabl 1 ac wedi esbonio pwrpasau'r colofnau'n gliriach drwy aileirio'r testun ym mhenawdadu'r colofnau ac ychwanegu troednodyn.</p>
<p>Yn croesawu cynnwys Gwarchodfeydd yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt ond mae'n ymddangos yn rhyfedd bod gwarchodfeydd natur NGO eraill yn absennol, yn benodol rhai Coed Cadw a'r RSPB. Pe bai hyn yn cael ei newid, byddai hefyd angen diweddarau paragraff 6.18. <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Gallai'r newid hwn fod yn bosib rhywdro arall yn y dyfodol, ond nid oes angen newid ar hyn o bryd.</p>
<p>Dylid diwygio cyfeiriadau at LBAP Powys i gyfeirio at Gynllun Gweithredu Adfer Natur Powys (NRAP) gan gynnwys Paragraffau 6.33 – 6.35, Atodiadau B ac C, ac yn y blaen <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Er bod y Cyngor yn cytuno y byddai'r newid arfaethedig yn ddymunol, hyd nes y caiff yr NRAP ei fabwysiadu, yr LBAP yw'r Cynllun priodol o hyd i ymgeiswyr gyfeirio ato. Byddai tynnu allan y cyfeiriadau at yr LBAP ar hyn o bryd felly'n golygu bod perygl i'r ffynhonnell bwysig o wybodaeth leol yma gael ei gadael allan o ymchwil gychwynnol yr ymgeisydd. Dim angen newid.</p>
<p>Atodiad A – nid yw adran 42 'cynefinoedd a rhywogaethau pwysig (blaenoriaeth)' mwyach yn bodoli a dylid cyfeirio ati fel 'Adran 7' <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>Mae'r cyfeiriad hwn yn yr Eirfa wedi'i gynnwys er eglurder fel 'adran 42', ac mae cyfeiriadau at Ddeddf NERC yn dal i gael eu defnyddio ac yn aml iawn i'w gweld mewn dogfennau. Mae disodli adran 42 gydag adran 7 yn cael ei egluro yn y testun o dan y term hwn yn yr Eirfa. Dim angen newid.</p>
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Yn amodol ar sylwadau penodol, ymddengys bod y ddogfen yn briodol. <b>(Ymatebydd 5704)</b></li> <li>2. Ie ar yr amod y dylid ehangu'r Eirfa - e.e. NRAP, SoNaRR. <b>(Ymatebydd 6160)</b></li> <li>3. Mae'r iaith a ddefnyddir yn y ddogfen yn briodol i'r gynulleidfa darged. <b>(Ymatebydd 7076)</b></li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nodir y sylwadau.</li> <li>2. Nodir y sylwadau. Mae cyfeiriad at NRAP a SoNaRR a rhoddir eglurhad ohonynt yn Atodiad C.</li> <li>3. Nodir y sylwadau.</li> </ol>
<p>Mae'r iaith weithiau'n amleiriog fel bod y canllawiau CCA yn ddiangen o hir. e.e. Gallai paragraff <b>6.7 Ardaloedd AGA</b> ddarllen: <b>"Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA):</b> <i>dynodiad Ewropeaidd ar gyfer gwarchod adar. Mae tair ardal AGA naill ai'n llwyr neu'n rhannol yn ardal gynllunio Powys a dwy arall yn ddigon agos i fod dan fygythiad o ddatblygu yn yr ardal gynllunio. Dylai datblygwyr fod yn ymwybodol o leiniau clustogi gwasgariad adar a thwrio am fwyd o gwmpas ardaloedd AGA".</i> <b>(Ymatebydd 6235)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Achubwyd ar y cyfle i adolygu'r ddogfen ac mae newidiadau wedi eu gwneud lle bo angen.</p>

**Cwestiwn 3: BG3 – a oes unrhyw gynnwys ar goll o'r CCA, neu rannau y gellid eu gwella?**

Mater dan sylw	Ymateb y Cyngor
<p>1. Paragraff 6.16 – diwygio i ddarllen: "Mae'r rhain yn cael eu hasesu a'u dewis yn defnyddio meini prawf penodol sy'n cydnabod eu gwerth bywyd gwyllt, ac wedi eu datblygu a'u cytuno gan aelodau o Bartneriaeth Natur Powys (wele Atodiad A)".</p> <p>2. Paragraff 6.18 – diwygio i ddarllen: "Mae'r tair Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt ym Mhowys hefyd yn berchen ar, yn prydlesu ac yn rheoli tir fel Gwarchodfeydd Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt (WTR). Maen nhw'n gwarchod, yn genedlaethol neu'n lleol, bywyd gwyllt neu gynefinoedd prin neu fregus a llawer gyda dynodiadau statudol. Ym Mhowys mae...." <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>1. Wedi'i gytuno.</p> <p>2. Wedi'i gytuno, hefyd y geiriad ychwanegol "ac mae gan lawer ddynodiadau statudol".</p>
<p>1. Tabl 1 – mae cynefinoedd a rhywogaethau adran 7 a Choed Hynod ar goll o Dabl 1 a dylid eu hychwanegu.</p> <p>2. Paragraff 6.27 – dylai gynnwys pedwar categori'r Rhestr Coetiroedd Hynafol sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>* Coetir Hynafol Lled-Naturiol (ASNW)</li> <li>* Safleoedd Planhigfa ar Goetir Hynafol (PAWS)</li> <li>* Safleoedd Coetir Hynafol Wedi'i Hadfer (RAWS)</li> <li>* Safle Coetir Hynafol Categori Anhysbys (AWSU)</li> </ul> <p>3. Paragraffau 6.30 a 6.31 – mae gan Bowys ardaloedd rhyngwladol bwysig o goed hynod / tir parc hanesyddol y dylid eu pwysleisio, e.e. Cwm Elan. <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>1. Wedi'i gytuno.</p> <p>2. Wedi'i gytuno. Yr holl gategorïau i'w cynnwys yn y CCA.</p> <p>3. Nodir y sylw. Ar ôl adolygu'r testun, ystyrir bod y geiriad presennol yn foddhaol felly nid oes angen newid.</p>
<p>1. Dylai'r CCA fod yn gryfach i gydnabod y gall safleoedd anstatudol gynnwys nodweddion biolegol o bwysigrwydd rhyngwladol, yn yr un ffordd nad yw pob safle o ansawdd SoDdGA yn cael eu dynodi'n SoDdGA yn y pen draw. Er enghraifft, dylid cynnwys pyllau dŵr biolegol gyfoethog. Mae'r Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw wedi cydnabod bod rhannau o Bowys yn 'Ardaloedd Rhyngwladol Bwysig ar gyfer Pyllau Dŵr (IAP), e.e. y pyllau mawn ar dir comin ar draws gogledd Brycheiniog a Sir Faesyfed. Nid oes ganddynt warchodaeth dynodiad ond eto maen nhw'n ardaloedd o werth bioamrywiaeth sylweddol gyda phoblogaethau uchel o rywogaethau fel y Fadfall Gribog Fwyaf.</p> <p>2. Mae'n bwysig cofio bod y rhwydwaith cenedlaethol o safleoedd SoDdGA yn cynnwys rhai o safleoedd bywyd gwyllt a</p>	<p>1. Nodir y sylwadau. Ychwanegu paragraff newydd i gyfeirio at safleoedd anstatudol a'u bod yn cynnwys nodweddion o bwysigrwydd rhyngwladol gan ddefnyddio pyllau mawn fel enghraifft.</p> <p>2. Wedi'i gytuno. Ychwanegu'r canlynol 'ac felly'n cynnwys rhai o safleoedd bywyd gwyllt a daearegol gorau'r wlad'.</p>

<p>daearyddol gorau'r wlad; dylid pwysleisio hyn ym mharagraff 6.12. <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	
<p>1. Paragraff 6.32 – mae'n bwysig cadw pwysigrwydd y gwahaniaeth rhwng safleoedd sy'n genedlaethol bwysig a rhai sy'n bwysig yn lleol. Naill ai rhestru cynefinoedd adran 7 yn y fan hyn (gellid tynnu allan unrhyw rai nad ydynt yn berthnasol i Bowys) neu gyfeirio'r darllennydd at Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru am y rhestr.</p> <p>2. Paragraff 6.33 – gan ddibynnu ar sut yr ymdrinnir â pharagraff 6.32, naill ai rhestru cynefinoedd NRAP neu gyfeirio'r darllennydd at NRAP Powys am y rhestr. <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>1. Nodir y sylwadau. Cynnwys cyfeiriad at Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.</p> <p>2. LBAP Powys yw'r cynllun perthnasol hyd nes y bydd yr NRAP yn cael ei fabwysiadu felly dylai'r cyfeiriad at Gynefinoedd LBAP aros.</p>
<p>1. Paragraffau 7.7 a 7.8 - nid oes sôn am drwyddedau amgylcheddol (EPR) a gellid eu cynnwys yma.</p> <p>2. Tabl 2 – angen pwysleisio bod angen cyflawni arolygon llystyfiant Cyfnod 2, ar adeg briodol yn y flwyddyn, os yw'r gwerthusiad ecolegol cychwynol yn adnabod cynefin diddorol. Mae hyn yn berthnasol ar gyfer y 10 safle datblygu sydd ar frig y tabl.</p> <p>3. Paragraff 7.27 – dylai arolygon pellach gynnwys rhai ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd blaenorol yn ogystal ag EPS.</p> <p>4. Tabl 3 – diwygio'r adeg orau i gyflawni arolygon pathewod i rhwng Mai a Hydref (yn gynwysiedig), a gweddill y flwyddyn yn llai addas. <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>1. Nodir y sylwadau.</p> <p>2. Tabl 2 – bydd mwy o eglurder yn cael ei roi.</p> <p>3. Cynnwys testun ychwanegol: 'fel y rhai ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd blaenorol ac EPS.</p> <p>4. Wedi'i gytuno, diwygio Tabl 3 i gynnwys hyn.</p>
<p>Paragraff 8.26 – wrth ddweud "nid yw gwneud iawn o reidrwydd yn gorfod bod ar sail tebyg am debyg" dylid pwysleisio y dylai'r fantais a enillir gynnig gwerth a chysondeb yn y tirlun ecolegol y bydd ynddo. <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Bydd y testun yn cael ei ddiwygio.</p>
<p><b>Unedau Da Byw Dwys</b></p> <p>Paragraffau 9.16 – 9.20 – yn llythyr y Prif Swyddog Cynllunio (12/6/18) gan Lywodraeth Cymru, pwysleisiwyd effaith datblygiadau amaethyddol dwys. Mae geirio'r adran yma'n briodol yn gyfle gwych i wella'r broses bresennol o wneud penderfyniadau.</p> <p>Byddem yn hoffi pwysio ar PCC i wrando ar gyngor diweddar gan Lywodraeth Cymru ynghylch pwysigrwydd ystod eang o ymgynghoreion wrth ystyried y datblygiadau hyn. (Llythyr gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, 30/4/018). <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Mae'r Cyngor yn gyfarwydd â'r llythyrau eglurder y cyfeiriwyd atynt ac o'r farn ei fod eisoes yn dilyn y cyngor hwn. Ar ôl adolygu'r adran ar Unedau Da Byw Dwys ni ystyriwyd bod angen gwneud unrhyw newidiadau.</p>



<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Paragraff 6.42 – yn cyfeirio at "adran 4.4. isod" ond nid yw'r adran yma'n bodoli.</li> <li>2. Paragraff 8.18 – yn cyfeirio at adrannau 5.5. a 5.6 ond nid ydynt yn bodoli.</li> <li>3. Paragraff 8.23 – tynnu "Fodd bynnag" allan o ddechrau'r ail frawddeg a rhoi "Er enghraifft" yn ei le.</li> <li>4. Paragraff 8.30 - yn yr ail bwynt bwled, dylid cynnwys 'brics ystlumod'.</li> <li>5. Paragraffau 9.13 a 9.15 – yn cyfeirio at adran 6.5 ond nid yw'n bodoli. <b>(Ymatebydd 5201)</b></li> </ol>	<p>Nodir y sylwadau. Bydd y croes-gyfeiriadau'n cael eu diweddarau, cyfeiriad at 'brics ystlumod' yn cael ei gynnwys yn Nhabl 5, a'r CCA yn cael eu golygu.</p>
<p>Gellid symud adran 7 i atodiad. <b>(Ymatebydd 5704)</b></p>	<p>Nodir hyn ond mae'r Cyngor o'r farn ei bod yn bwysig cadw'r adran hon yng nghorff y canllawiau CCA.</p>
<p>Paragraff 4.1 – ei ddiwygio i ddarllen "...ystyried effeithiau posib y cynigion ar y buddiannau hyn ar neu gerllaw safleoedd datblygu". <b>(Ymatebydd 6160)</b></p>	<p>Nodir hyn. Bydd y geiriau 'a thu hwnt' yn cael eu hychwanegu.</p>
<p>Mae paragraff 4.7 yn dweud "<i>Oherwydd ei maint, mae yma amrywiaeth sylweddol o wahanol gynefinoedd</i>". Mae'r datganiad hwn yn gamarweiniol. Nid oherwydd bod Powys mor fawr y mae yma amrywiaeth sylweddol o gynefinoedd, ond oherwydd ei geoamrywiaeth a pherthynas ryngweithiol dyn â hyn. <b>(Ymatebydd 6160)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Ychwanegu'r gair 'Yn rhannol' at ddechrau'r paragraff.</p>
<p>Tabl 2 – yn anghyson wrth ddisgrifio arolygon. O ganlyniad mae'r testun yn dilyn y tabl yma'n ddryslud am statws rhywogaethau, e.e. mae 7.29 tan 7.36 yn trafod EPS ond yna mae ystlumod yn cael eu trafod ar wahân yn 7.41. <b>(Ymatebydd 6160)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Mae Tabl 2 wedi'i ddiwygio a newidiadau golygu wedi eu gwneud.</p>
<p>Paragraff 7.27 – yn cyfeirio at ganllawiau CIEM ond mae'r canllawiau'n cael eu diweddarau'n rheolaidd. <b>(Ymatebydd 6160)</b></p>	<p>Wedi'i gytuno. Mewnosod y testun "neu unrhyw ganllawiau diweddaraf".</p>
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Para. 7.37 – nid yw'r paragraff hwn yn dderbyniol oherwydd mae'n diystyru llawer o rywogaethau adar gwarchoddedig Powys yn llwyr. Mae'r rhan fwyaf o adar ysglyfaethus eraill yn rhai Atodlen 1, felly hefyd rai rhywogaethau eraill y gallai datblygu ym Mhowys effeithio arnynt.</li> <li>2. Dylid symud paragraffau 7.37 a 7.38 a'u cyfuno â pharagraff 8.48 yn adran 8.</li> <li>3. Dylid rhoi pennawd newydd i baragraff 7.39, e.e. 'arolygon adar', a chynnwys trafodaeth am adar nythu ac adar gwarchoddedig. <b>(Ymatebydd 6160)</b></li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nodir y sylwadau. Mae'r Cyngor yn anghytuno. Mae tylluannod gwynion yn y CCA oherwydd maen nhw'n nythu a chlwydo mewn adeiladau'n aml ac felly'n enghraifft o rywogaeth a allai gael ei bygwth gan ddatblygu. Mae llawer o adar Atodlen 1 eraill i'w cael ym Mhowys ond bydd y rhain yn destun arolygon sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y CCA. Dim angen newid.</li> <li>2. a 3. Byddwn yn nodi'n glir mai enghreifftiau yw'r arolygon hyn. Bydd is-bennawd newydd yn cael ei gynnwys.</li> </ol>
<p>Paragraff 7.39 "<i>...Mae ardaloedd o lystyfiant trwchus (e.e. gwrychoedd neu dir diffaith ers tro</i></p>	<p>Nodir y sylw. Er bod y Cyngor yn anghytuno bod y paragraff hwn yn</p>

<p><i>byd) hefyd yn bwysig i adar nythu eraill". Mae'r datganiad hwn, er yn gywir, yn gorsymleiddio'r sefyllfa. Mae'n anwybyddu adar sy'n nythu ar y ddaear, yn enwedig statws bregus y gyflinir sy'n nythu mewn cynefinoedd llaith ac sy'n arbennig o agored i niwed gan y math o ddatblygiadau amaethyddol sy'n dod gerbron ac ardaloedd LSA solar. (Ymatebydd 6160)</i></p>	<p>anwybyddu adar sy'n nythu ar y ddaear, bwriadwn ychwanegu'r geiriau '<u>neu agored</u>' a '<u>neu amaethyddol</u>' a bydd y gair 'neu' yn cael ei dynnu allan.</p>
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Diwygio 8.2 i ddarllen "buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yr effeithir arnynt gan safleoedd datblygu".</li> <li>2. Paragraff 8.27 – dylai egluro y bydd y mesurau gwneud iawn yn rhan o amodau.</li> <li>3. Paragraff 8.34 – mae'n bryder mawr bod y ddogfen hon wedi'i chyflwyno ar gyfer ymgynghori cyhoeddus gyda'r wybodaeth enghreifftiol yma ar goll.</li> <li>4. Paragraff 8.38 – yn gadael ymlusgiaid allan o'r rhestr ffawna, e.e. y neidr ddefaid.</li> <li>5. Paragraff 8.44 – dylai ddarllen "yr effeithir arnynt gan gynigion datblygu".</li> <li>6. Paragraff 8.45 "<i>...os yw cais cynllunio'n debygol o effeithio'n uniongyrchol ar bwll dŵr, camlas, ffos neu selar, efallai y bydd angen arolwg madfallod cribog mwyaf.</i>" Mae'r cyngor yn anghywir ac anghyson â'r cyngor ar EPS yn 7.23. Byddai angen arolwg madfallod cribog mwyaf:  <ul style="list-style-type: none"> <li>*os oes cofnodion hanesyddol o fadfallod yn neu'n agos i'r safle datblygu arfaethedig.</li> <li>*os oes pwll dŵr o fewn 500 metr i ffin safle'r cais hyd yn oed os oes dŵr ynddo dim ond ar rai adegau yn y flwyddyn.</li> <li>* os yw'r safle datblygu'n cynnwys llochesau (e.e. tomenni coed neu rwbel), glaswelltir, prysgwydd, coetir neu wrychoedd.</li> </ul> <b>(Ymatebydd 6160)</b> </li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nodir y sylwadau. Bydd y paragraffau agoriadol yn cael eu diwygio er eglurder.</li> <li>2. Wedi'i gytuno. Ychwanegu'r geiriad canlynol: "Gallai mesurau gwneud iawn hefyd fod ar ffurf amodau cynllunio a monitro parhaus".</li> <li>3. Nodir y sylw ond i bwrpas enghreifftiol yn unig oedd y diagram.</li> <li>4. Ni fwriedir i'r rhestr rhywogaethau fod yn un gynhwysfawr.</li> <li>5. Nodir y sylw. Argymhellir newid y testun i adlewyrchu hyn.</li> <li>6. Wedi'i gytuno. Bydd y gair 'uniongyrchol' yn cael ei dynnu allan.</li> </ol>
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Paragraffau 4.2 a 4.5, 6.16, 6.25, 6.26, 6.27, 7.35 – ailadroddus.</li> <li>2. Paragraff 6.20 – tynnu <i>Dalier sylw</i> allan – diangen.</li> <li>3. Paragraffau 6.42, 7.33, 8.8. 8.14. 8.18, 8.39, 8.41.8.43, 9.13, 9.15 – croesgyfeirio anghywir.</li> </ol> <b>(Ymatebydd 6160)</b>	<p>Nodir y sylwadau. Bydd y CCA yn cael eu golygu ymhellach.</p>
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cyn adran '5.0 Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol, dylid gosod allan adrannau 3, 4 a 6 o Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) fel ag yn y Ddeddf.</li> <li>2. Dylai adran 5.0 Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol nodi'n glir bod yr LDP yn ddogfen integredig a bod polisiâu eraill ar wahân i SP7 a DM2 yn berthnasol i Fioamrywiaeth a</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae'r Cyngor yn anghytuno â'r sylw hwn. Crynhoir Deddf yr Amgylchedd yn Atodiad C. Dim angen newid.</li> <li>2. Mae'r pwynt hwn yn cael ei wneud eisoes yn y rhagarweiniad i'r ddogfen. Mae hefyd yn cael ei ailadrodd yn Atodiad C sydd eisoes yn rhestru prif bolisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol sy'n</li> </ol>

<p>Geoamrywiaeth. Er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• DM7 ar lygredd golau.</li> <li>• DM13.13.v ar warchod priddoedd.</li> <li>• DM14.2 ar reoli ansawdd yr aer.</li> <li>• DM15 ar wastraff mewn datblygiadau <b>(Ymatebydd 6235)</b></li> </ul>	<p>debygol o fod yn berthnasol i Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth. Dim angen newid.</p>
<p>Elfennau pwysig ar goll o'r CCA:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Pwysigrwydd adroddiad Sefyllfa Byd Natur Cymru: gwrthdroi'r dirywiad mewn Bioamrywiaeth.</li> <li>2. Trafod Gwarchod Priddoedd.</li> <li>3. Trafod effeithiau Cronnus.</li> <li>4. Trafodaeth fanwl am Gynigion Da Byw Dwys, fframwaith rheoleiddio a rôl PCC. <b>(Ymatebydd 6235)</b></li> </ol>	<p>Nodir y sylwadau. Y newidiadau canlynol i'w gwneud i'r ddogfen:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnwys cyfeiriad at yr adroddiad 'Sefyllfa Byd Natur'.</li> <li>• Wedi'i gytuno. Ychwanegu adran newydd ar briddoedd yn yr adran ar Geoamrywiaeth a Chynigion Datblygu.</li> <li>• Wedi'i gytuno. Ychwanegu adran newydd ar 'Effeithiau Cronnus a Chyfunol' yn yr adran ar Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth yn y Broses Gynllunio.</li> <li>• Mae'r Cyngor eisoes wedi cynnwys adran ar Unedau Da Byw Dwys ac yn ystyried bod hyn yn ddigon. Dim angen newid.</li> </ul>
<p>Y CCA i gynnwys gwybodaeth ychwanegol am:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Coetiroedd hynafol lled-naturiol.</li> <li>2. Y Gyfarwyddeb Adar.</li> <li>3. Deddfwriaeth gysylltiedig heb ei rheoleiddio o dan gynllunio. (wele'r sylwadau ar dudalen 17 yn y CCA drafft amgaeedig).</li> <li>4. Rôl NRW mewn atal llifogydd.</li> <li>5. Ystyried problemau ôl-adeiladu tymor hir.</li> <li>6. Eglurder ar y ddeddfwriaeth INNS a gofynion bioddiogelwch yn ystod y broses gynllunio.</li> <li>7. Dyletswyddau awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys LPA Powys, i adrodd a monitro'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur o dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd <b>(Ymatebydd 7076)</b></li> </ol>	<p>Nodir y sylwadau. Diwygio'r CCA i gynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Gwybodaeth ychwanegol am Goetiroedd Hynafol.</li> <li>2. Testun ar ardaloedd AGA a chysylltiad i fwy o wybodaeth am y Gyfarwyddeb Adar, i'w gynnwys yn Atodiad B.</li> <li>3. Nodir y sylwadau, fodd bynnag mae'r Cyngor o'r farn bod y wybodaeth yma'n ddiangen.</li> <li>4. Cynnwys ei bod yn ofynnol ymgynghori â NRW.</li> <li>5. Wedi'i gytuno. Y testun wedi'i ddiwygio mewn sawl lle i adlewyrchu hyn.</li> <li>6. Testun ar INNS wedi'i gynnwys yn adran 9.</li> </ol> <p>Testun wedi'i gynnwys ar ddyletswyddau awdurdodau LPA yn Atodiad C o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r CCA eisoes yn cynnwys nifer o baragraffau ar weithgareddau anghyfreithlon sydd wedi eu gosod o dan bennawd newydd i dynnu sylw atynt, felly ni ystyriwyd bod angen newid.</p>

**Cwestiwn 4: BG4 – Mae Adran 6 yn ymdrin â phwnc cymhleth. A fyddai modd gwella trefn a chynllun, neu gynnwys yr adran hon? Os felly, sut?**

Mater dan sylw	Ymateb y Cyngor
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Mae trefn a chynllun yr adran yn dda <b>(Ymatebydd 542)</b></li> <li>2. Mae wedi'i gosod allan yn glir. <b>(Ymatebydd 5201)</b></li> <li>3. Gellid efallai ei chrynhoi neu roi rhai manylion mewn atodiad. Gallai fod yn werth cyflwyno delweddau. Mae rhai termau wedi eu dyblygu yn yr Eirfa. <b>(Ymatebydd 5704)</b></li> <li>4. Mae paragraffau 6.25- 6.27 yn ailadroddus. Mae 6.27 a 6.28 yn trafod porfa goedwig ond nid yw'n egluro beth yw – ydy o'n cynnwys hen berllannau neu dir ffridd?</li> <li>5. Paragraff 6.31 – awgrymu bod angen teitl i'r paragraff, e.e. 'mapio safleoedd dynodedig'.</li> <li>6. Paragraff 6.43 – yn trafod rhywogaethau gwarchoddedig y DU ond nid yw'n egluro sut y mae'r planhigion yn cael eu gwarchod. <b>(Ymatebydd 6160)</b></li> <li>7. Gellid gwella adran 6 o ran ei chynllun a strwythur ei phenawdau. Byddai penawdau mewn teip tywyll ar gyfer y dynodiadau'n beth da, e.e. 6.11, 6.13, 6.16, 6.17, 6.18, 6.19, 6.21.</li> <li>8. Mae'r adran yn ddryslyd iawn. Rhaid defnyddio'r termau'n ofalus a chyson. Mae angen egluro gofalus ar: "dynodiad" a "statudol"; "gwarchoddedig" a "pwysig"; bod rhai swyddogaethau cynllunio wedi eu datganoli i Gymru; pa wybodaeth sydd angen i ymgeiswyr ei darparu am gategoriâu LBAP a choetir; pa ystyriaeth fydd PCC yn ei rhoi i gategoriâu LBAP wrth benderfynu ceisiadau cynllunio.</li> <li>9. Yn yr is-is-benawdau, dim ond "<i>pwysig</i>" yw cynefinoedd a rhywogaethau LBAP, fodd bynnag yn Nhabl 1 mae gan rywogaethau a chynefinoedd LBAP warchodaeth statudol ond nid gwarchodfeydd RVNR ac AW.</li> <li>10. Mae angen nodi'n glir bod gan PCC ddyletswydd i wella a chynnal bioamrywiaeth ym mhob man lle nad oes dynodiad cenedlaethol neu ryngwladol.</li> <li>11. Ar gyfer safleoedd gyda dynodiad rhyngwladol a chenedlathol, PCC sy'n gyfrifol am ystyried effeithiau cronus. Mae PCC hefyd yn gyfrifol am ystyried yr effeithiau cronus ar yr holl fuddiannau bioamrywiaeth eraill. <b>(Ymatebydd 6235)</b></li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. a 2. Nodir y sylw.</li> <li>3. - 11. Nodir y sylwadau. Mae adran 6 wedi'i hadolygu a'r newidiadau angenrheidiol wedi eu gwneud.</li> </ol>

**Cwestiwn 5: BG5 – A fyddai'n well pe bai'r adrannau ar 'Ymgorffori gwydnwch mewn**

**cynigion datblygu' a 'Seilwaith gwyrdd a gwydnwch' (paragraffau 8.67 - 8.77) wedi eu gwreiddio yn yr adran 'Dylunio' (8.17 – 8.34)?**

Mater yn codi	Ymateb y Cyngor
<p>1. Byddai. (Ymatebydd 516; Ymatebwyr 5704, 6160, 6235, 7076)</p> <p>2. Byddai; awgrymu hefyd bod angen symleiddio'r adran hon drwy dynnu allan Tabl 5 a pharagraffau 8.70 a 8.71 oherwydd trafodir hyn i gyd yn rhywle arall ac nid yw'n debygol o olygu llawer o gwbl i'r ymgeisydd. (Ymatebydd 5201)</p>	<p>1. Nodir y sylw. Bydd y paragraffau'n cael eu symud.</p> <p>2. Mae'r Cyngor yn anghytuno ac yn ystyried bod gan Dabl 5 rôl i'w chwarae yn y CCA. Rhoddir eglurhad yn y paragraffau sy'n dilyn. Dim angen newid.</p>

**Cwestiwn 6: BG6 – A fyddai cynnwys rhestr wirio neu siart llif ar gyfer ymgorffori bioamrywiaeth a geoamrywiaeth yn y broses gynllunio'n ddefnyddiol i grynhoi'r broses, neu a allai hyn orsymleiddio ystyriaethau pwysig?**

Mater yn codi	Ymateb y Cyngor
<p>1. Byddai siart llif enghreifftiol yn debygol o fod yn ddefnyddiol iawn i ymgeiswyr. Efallai y byddai modd creu ap oherwydd drwy wneud hynny gellid cadw'r manylion. (Ymatebydd 516; Ymatebwyr 5201, 5704, 7076)</p> <p>2. Na fyddai. Dim ond dyblygu testun a gorsymleiddio ystyriaethau fyddai hyn ac ni fyddai ar gael ar gyfer ymgynghori cyhoeddus. Ar y cyfan gellid tynhau'r testun a'i fyrhau mewn ambell le i bwysleisio'n union beth y byddai angen i ddatblygwr ei wneud. (Ymatebwyr 6160, 6235)</p>	<p>1. a 2. Nodir y sylwadau. Bydd siart llif enghreifftiol yn cael ei chynnwys.</p>

**Cwestiwn 7: BG7 – Ydy Atodiad C yn cysylltu i, ac yn cefnogi rhannau eraill o'r CCA yn ddigon trylwyr, neu a ddylid atgyfnerthu'r cyd-destun cyfreithiol (h.y. y rheswm pam fod rhywbeth yn ofynnol)?**

Mater yn codi	Ymateb y Cyngor
<p>1. Ydy. (Ymatebydd 516) Mae Atodiad C yn ddigonol. (Ymatebydd 6160)</p> <p>2. Gellid cryfhau Atodiad C drwy gyfeirio at hyn mewn rhannau eraill o'r ddogfen. (Ymatebydd 5201)</p> <p>3. Mae cyfeiriad yn y brif ddogfen at Atodiad C, e.e. ym mharagraffau 2.1, 7.2, 8.13. O ystyried pa mor hir yw'r ddogfen, efallai y byddai'n ddefnyddiol ehangu ar y cyd-destun cyfreithiol yn adran 2.0. (Ymatebydd 5704)</p>	<p>1. Nodir y sylw.</p> <p>2. Bydd cyfeiriadau ychwanegol at Atodiad C yn cael eu cynnwys lle bo hynny'n briodol.</p> <p>3. Mae'r sylw wedi'i nodi, ond ystyrir bod adran 2 ac Atodiad C eisoes yn ehangu ar hyn.</p> <p>4.</p>
<p>1. Mae'r WBFGA yn llawer llai clir a phenodol ar Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth na dyletswyddau adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) sy'n allweddol i'r CCA hyn ac mae'n gamgymeriad mawr eu gadael allan. Nid yw'r disgrifiad yn Atodiad C yn foddhaol a dylid eu</p>	<p>1. Nodir y sylwadau, fodd bynnag mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnwys am Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a'r WBFGA yn ddigonol ac yn y lle iawn. Dim angen newid.</p> <p>2. Nodir y sylwadau.</p>

<p>nodi'n llawn yn gynt yn y ddogfen. <b>(Ymatebydd 6235)</b></p> <p>2. Dylai'r CCA sôn am y ddeddfwriaeth berthnasol oherwydd mae'n helpu i gadarnhau beth sy'n gyfreithiol ofynnol a beth sy'n arfer da / canllawiau. Dylid gwneud cyfeiriad priodol at Atodiad C am fanylion ychwanegol. <b>(Ymatebydd 7076)</b></p>	
<p>I osgoi dryswch, mae angen eglurder yn Atodiad C ar brosiectau Atodlen 2 o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru) (2017). <b>(Ymatebydd 542)</b></p>	<p>Nid yw'r Rheoliadau'n fater sydd o fewn rheolaeth y Cyngor felly nid oes angen newid y CCA.</p>

**Cwestiwn 8: BG8 – Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud nad ydynt yn cael sylw o dan y cwestiynau uchod, dylech eu cynnwys yma:**

<b>Mater yn codi</b>	<b>Ymateb y Cyngor</b>
<p>Mae CPAT yn croesawu'r CCA hyn. Gallai fod yn werth nodi bod peth gorgyffwrdd rhwng bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol ac y gallai fod adegau pryd y gellid defnyddio polisiau ar yr amgylchedd hanesyddol i gynorthwyo gyda materion bioamrywiaeth. Er enghraifft, mae gan fawnogydd, gwrychoedd a ffiniau, systemau caeau, coed hynod, coetiroedd hynafol, tir parc, ogofau, afonydd, nentydd, llynnoedd a phyllau dŵr i gyd ddimensiwn amgylchedd hanesyddol yn perthyn iddynt a allai gefnogi'r ddadl fioamrywiaeth. Gellid sôn am y gorgyffwrdd hwn. <b>(Ymatebydd 27)</b></p>	<p>Nodir y sylw. Byddwn yn sôn am y gorgyffwrdd hwn.</p>
<p>Mae'n dda bod cyfeiriad at bolisi DM7, o ystyried pwysigrwydd statws awyr dywyll Powys a manteision awyr dywyll i fioamrywiaeth. Dylid ymgorffori polisi manwl ar reoli goleuadau yn y broses gynllunio. <b>(Ymatebydd 222)</b></p>	<p>Nodir y sylwadau. Mae Polisi DM7 y LDP yn cynnwys llygredd golau ac yn cyfeirio at ddynodiadau awyr dywyll. Dim angen newid.</p>
<p>Paragraff 6.17, Atodiad B – mae angen cywiro enwau a manylion cyswllt Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Powys. <b>(Ymatebydd 5201)</b></p>	<p>Wedi'i gytuno.</p>
<p>1. Paragraff 4.7 – dylai gynnwys 'camlesi' yn y rhestr cynefinoedd, yn enwedig o ystyried bod camlas Trefaldwyn wedi'i dynodi fel ardal ACA a SoDdGA.</p> <p>2. Paragraff 8.30 – diwygio'r geiriad i ddarllen “<i>Creu parth clustog ar hyd cyrsiau dŵr naturiol, wedi eu plannu gyda rhywogaethau brodorol (lle bo hynny'n briodol)</i>”. Byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd o ran datblygu gerllaw'r gamlas.</p> <p>3. Paragraff 9.11 – dylai gyfeirio at y ffaith bod camlas Trefaldwyn wedi'i dynodi'n ardal ACA. <b>(Ymatebydd 5704)</b></p>	<p>1. Wedi'i gytuno.</p> <p>2. Gyda rheoliadau cysylltiedig eisoes yn berthnasol i ddatblygu gerllaw dyfrffyrdd artiffisial, y teimlad yw y byddai cynnwys 'lle bo hynny'n briodol' gyda'r gair 'naturiol' yn gwanhau'r canllawiau'n ddiangen. Bydd y paragraff yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at Dabl 5.</p> <p>3. Wedi'i gytuno.</p>
<p>Geoamrywiaeth – er bod yr LDP yn DM13 yn cyfeirio at warchod priddoedd fel adnodd sy'n</p>	<p>Bydd adran newydd ar briddoedd yn cael ei chynnwys.</p>

<p>darparu gwasanaethau ecosystem, nid yw'r CCA yn ehangu ar hyn. <b>(Ymatebydd 6160)</b></p>	
<p>1. Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD) – dylid sicrhau bod gofynion y WFD yn cyplysu'n well â bioamrywiaeth ar wahân i lygredd ffosffadau. Mae hefyd yn cyplysu â geoamrywiaeth a gwarchod priddoedd. <b>(Ymatebydd 6160)</b></p> <p>2. Nid yw'r adran ar y Gyfarwyddeb yn egluro rôl yr LPA mewn cyflawni amcanion yr WFD a'i ddyletswydd fel awdurdod cymwys i warchod ansawdd y dŵr ym Mhowys. Mae'r CCA yn awgrymu mai NRW sy'n gyfrifol am bob dim, fodd bynnag mae NRW wedi cyhoeddi nodyn cynghori "Gwasanaethau'r Awdurdodau Lleol a'r amgylchedd dŵr"  <a href="http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/media/680441/wfd-advice-note-cymraeg.pdf">http://www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/media/680441/wfd-advice-note-cymraeg.pdf</a> I gyflawni'r rôl hon, rhaid i awdurdodau LPA sicrhau bod ganddynt y wybodaeth berthnasol am yr amgylchedd dŵr. Awgrymu ychwanegu: "<i>Rhaid i ymgeiswyr ddarparu <u>mapiau cyfuchlinol gyda manylion holl nodweddion dŵr [y safle datblygu a'r tir cyfaqos] wedi eu mapio'n glir arnynt lle bynnag y gallai unrhyw berygl llifogydd neu lygredd ddigwydd.</u></i>" (gan gynnwys gwybodaeth am Scimap) <b>(Ymatebydd 6235)</b></p> <p>3.</p>	<p>Nodir y sylwadau a bydd y paragraffau ar yr WFD yn cael eu hadolygu a'u newid i adlewyrchu hyn.</p>
<p>1. Unedau Da Byw Dwys (ILU) - mae trosglwyddo trafod y gofynion ar gyfer cynigion da byw dwys i "ystyriaethau eraill" yn annerbyniol a di-reswm. Yn rhesymegol, dylai unedau ILU fod wrth ymyl ceisiadau deiliaid cartrefi yn adran 8.</p> <p>2. Paragraff 9.18 – yn gamarweiniol. Dim ond effeithiau allyriadau ar safleoedd gyda dynodiadau rhyngwladol / cenedlaethol y mae NRW yn ymateb iddynt. Lle'r awdurdod lleol yw ystyried effeithiau ar fuddiannau bioamrywiaeth eraill. Lle'r LPA felly yw ystyried effeithiau, e.e. bryoffytau mewn coetir hynafol.</p> <p>3. Dogfennau cais – nid yw'r CCA wedi achub ar y cyfle i orfodi arfer da ar gyfer dogfennau cais i gynorthwyo dyletswyddau amgylcheddol statudol yr LPA. e.e. (a) cynlluniau cyfuchlinol ar gyfer ffermydd dofednod sy'n ofynnol gan NRW. Dylai Scifapio fod yn ofynnol. e.e. (b) mae cynlluniau rheoli tail fferm yn cael eu derbyn heb gynlluniau cyfuchlinol. Gallai tir a roddir gerbron fel digon o aceri ar gyfer gwastraff o'r ILU i gyd fod ar lethrau a ddylai ond gael eu teilo'n dymhorol. Dylai cynlluniau rheoli tail codio lliw fod yn un o'r gofynion arferol. <b>(Ymatebydd 6160)</b></p> <p>4. Paragraffau 9.16 – 9.20 – mae'r adran ar</p>	<p>Nodir y sylwadau, fodd bynnag mae'r Cyngor yn fodlon y rhoddir digon o wybodaeth am unedau da byw dwys fel nad oes angen unrhyw newidiadau.</p>

<p>unedau ILU yn anfoddfaol a charmarweiniol. Nid yw'r Cyngor wedi egluro ei gyfrifoldebau gyda phenderfynu ceisiadau cynllunio ILU. Mae'n hanfodol bod y CCA:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• yn ffeithiol gywir ac yn ddigon manwl.</li> <li>• yn unol â chyngor gan Lywodraeth Cymru ac NRW.</li> <li>• yn egluro rôl NRW a PCC i wella a chynnal bioamrywiaeth yn y broses gynllunio.</li> <li>• yn glir fel grisial i swyddogion PCC, ymgeiswyr a'r cyhoedd yn gyffredinol.</li> <li>• yn hysbysu pawb sut y bydd yr amodau cynllunio'n cael eu monitro a chan bwy.</li> <li>• na chyhoeddir y CCA hyd nes y caiff unrhyw fater aneglur ei ddatrys.</li> </ul> <p>(Cafodd sylwadau manwl eu cyflwyno gan yr Ymatebydd – wele Atodiad 1). <b>(Ymatebydd 6235)</b></p>	
<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Paragraff 2.1 – mae'r CCA yn bwysig i'r holl randdeiliaid ac i drigolion Powys. Dylid diwygio'r pwynt bwled cyntaf i ddarllen: <i>"Yn gosod allan sut y dylid dehongli polisi cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol a'i gymhwyso i warchod bioamrywiaeth a geoamrywiaeth er budd y cyhoedd."</i> Dylai'r ail bwynt bwled ddarllen: <i>"ymgeiswyr a phob datblygwr, ymgynghorydd ac asiant arall sy'n rhan o baratoi ceisiadau cynllunio."</i></li> <li>2. Paragraff 4.1 – nid yw effeithiau ecolegol datblygiad yn gorffen wrth ffin y safle. Diwygio'r geiriad fel a ganlyn: <i>"Mae'n hanfodol ystyried effeithiau posib pob cynnig ar ecoleg y safle datblygu a hefyd yr ecoleg y tu hwnt i safle'r datblygiad"</i>.</li> <li>3. Paragraff 4.2 – byddai'n gliriach egluro ar y dechrau bod: (a) yr LDP yn rhan o ddeddfwriaeth a pholisi cenedlaethol a rhyngwladol / UE a adlewyrchir eisoes yn y fersiwn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru. (b) nad yw polisi'r LDP ar fio / geoamrywiaeth, a ddisgrifir yn bennaf yn SP7 a DM2, yn ailadrodd PPW yn uniongyrchol (PPW9 2.3.1). (c) bod yr CCA felly'n ehangu ar y canllawiau yn yr LDP drwy nodi beth yw'r gofynion ar gyfer penderfynadau cynllunio sy'n deillio o'r holl ffynhonnellau hyn fel eu bod yn glir a hygyrch i bawb.</li> <li>4. Paragraff 4.3 – diwygio'r frawddeg olaf i: <i>"mae bioamrywiaeth a geoamrywiaeth wedi cael eu hasesu gyda darpariaeth wedi'i gwneud ar eu cyfer...."</i></li> <li>5. Paragraff 4.5 – dau ddiffiniad syml yw: <i>"holl rywogaeth, ecosystemau a genynnau ardal"</i>;</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>1. Nodir y sylwadau ond nid yw'r Cyngor yn credu bod angen gwneud unrhyw newid i'r pwyntiau bwled.</li> <li>2. Bydd y geiriau <u>'a thu hwnt'</u> yn cael eu hychwanegu.</li> <li>3. Bydd y geiriad ym mharagraff 4.2 yn cael ei ddiwygio i fyrrau'r eglurhad.</li> <li>4. Bydd para. 4.3 yn cael ei ddiwygio.</li> <li>5. Nodir hyn, ond ni fydd y CCA yn cael eu newid.</li> <li>6. Nodir y sylwadau. Bydd y CCA yn cael eu golygu ac adran newydd yn cael ei chynnwys ar safleoedd di-ddynodiad.</li> </ol>



<p><i>"cymuned fiolegol o organebau sy'n rhyngweithio a'u hamgylchedd ffisegol".</i></p> <p>6. Mae angen ehangu ar yr adran ragarweiniol hon – ni allwn wella a chynnal bioamrywiaeth dim ond drwy warchod gwarchodfeydd natur a rhai categorïau o rywogaethau p'un ai o bwys lleol, cenedlaethol neu ryngwladol. Mae'r ddyletswydd tuag at ecosystemau'n berthnasol i fioamrywiaeth ar draws Powys ac yn cael ei hystyried wrth benderfynu ceisiadau. (Nid yw datganiad 4.9 ar Fioamrywiaeth ym Mhowys yn y CCA <i>"ni all dynodiadau'n unig sicrhau cyflawnder a bodolaeth di-ben-draw'r adnoddau gwerthfawr hyn"</i> yn glir a digon pendant). Nid ydyn ni'n deall holl effeithiau negyddol ein gweithgareddau datblygu. Felly dylen ni ymarfer yr "egwyddor ragofalus". Fodd bynnag gwyddom mai drwy wella ac atal colli cynefinoedd naturiol a chreu rhai newydd yw'r ffordd orau o osgoi colli rhywogaethau. <b>(Ymatebydd 6235)</b></p> <p>7.</p>	
<p>1. Tabl 1 – Byddai nodyn ar gategorïau wedi / heb eu mapio'n ddefnyddiol.</p> <p>2. Paragraff 6.32 – mae adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi dyletswydd i greu rhestr ond nid yw'n cynnwys y rhestr o gynefinoedd neu rywogaethau a gyhoeddir gan Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru (ond o dan enw LIC) fel y disgrifir hynny yn 6.3.4 ar gyfer rhywogaethau. Awgrymu: <u><i>"Bod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi rhestr o gynefinoedd sy'n bwysig ar gyfer gwarchod Bioamrywiaeth yng Nghymru fel sy'n ofynnol gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)."</i></u></p> <p>3. Paragraff 6.38 – newid y geiriad o "os yw'n absennol yna gallai ohirio penderfyniad" i <u><i>"Rhaid cyflwyno'r wybodaeth yma gyda dogfennau'r cais cyn y gellir ei benderfynu"</i></u> <b>(Ymatebydd 6235)</b></p>	<p>1. Bydd Tabl 1 yn cael ei ddiwygio i roi eglurder pellach.</p> <p>2. Yn nodi'r sylw, bydd y geiriad yn cael ei ddiwygio.</p> <p>3. Bydd y geiriad yn cael ei ddiwygio i gyfeirio at wrthod caniatâd cynllunio.</p>
<p>1. Paragraff 7.2 – dylid gwella'r adran yma ar Aseidiadau Effaith Amgylcheddol. Mae'n amwys a charmarweiniol a dylai gyfeirio at ac egluro datblygiadau "Atodlen 1" ac "Atodlen 2" yn y rheoliadau EIA.</p> <p>2. Paragraff 7.3 – dylai fod yn gliriach a dweud y rhestrir amrywiaeth o wahanol ddatblygiadau ac y cymhwysir meini prawf a throthwyon penodol iddynt i benderfynu a yw'r prosiect yn ddatblygiad Atodlen 2 neu beidio. Rhaid i bob datblygiad Atodlen 2 gael ei sgrinio gan yr LPA (neu LIC neu NRW fel y bo'n briodol) i benderfynu a oes effeithiau sylweddol yn debygol o ddigwydd a fyddai'n awgrymu bod</p>	<p>1. a 2. Nodir y sylwadau. Bydd yr adran EIA yn cael ei hegluro ymhellach.</p>

<p>angen EIA. (Ymatebydd 6235)</p>	
<p><b>HRA</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Paragraff 7.16 – dylid nodi'n gliriach pa mor llym yw'r HRA. Awgrymu: <i>"Ni ellir rhoi caniatâd oni bai fod canlyniadau <u>Asesiad Priodol yn dangos y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol na fydd y cynnig yn cael effaith andwyol sylweddol ar gyflawnder y safle gwarchoddedig"</u></i></li> <li>Paragraff 7.18 – ddim yn gallu dod o hyd i'r cyfeiriad hwn felly mae angen darparu cyfeiriad haws dod o hyd iddo. Dylai'r CCA hefyd egluro, beth bynnag am ffiniau neu barth clustog safle, y gall llygredd aer a dŵr sylweddol ddigwydd y tu allan i ffiniau safle datblygu. (Ymatebydd 6235)</li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Nodir y sylwadau. Bydd yr adran HRA yn cael ei adolygu.</li> <li>Diwygio Atodiad B i roi dolen gyswllt i'r mapio hwn.</li> </ol>
<p><b>Arolygon Bioamrywiaeth</b></p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Paragraff 7.20 - nid oes angen arolygon ar gyfer pob datblygiad. Awgrymu: <i>"<u>Yn aml iawn mae angen cyflawni arolygon maes neu ben-desg i ddeall pa gynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd gwarchoddedig yr effeithir arnynt ar y safle neu y tu hwnt i safle'r cais.</u>"</i></li> <li>Paragraffau 7.21 – 7.23, Tabl 2 – mae hyn yn ddryslyd. Mae 7.23 yn sôn am EPS a gallai'r darlennydd feddwl bod hyn yr un fath ag <i>"arolygon rhywogaethau gwarchoddedig"</i>. Yna mae Tabl 2 yn sôn am ddau fath cyffredinol o arolwg: <i>"arfarniad ecolegol cychwynnol"</i> ac <i>"arolygon rhywogaethau gwarchoddedig"</i> ond ar gyfer cyrsiau dŵr mae gennym <i>"pysgod"</i> ac <i>"adar"</i> ac ar gyfer coetiroedd mae gennym EPS a <i>"moch daear, adar"</i>.</li> <li>Tabl 2 – angen ei ddiwygio. Nid oes sôn am blanhigion na chynefinoedd a allai fod yn bwysig. Nid oes canllawiau ar ba rywogaethau sy'n cael eu hystyried i fod yn <i>"warchoddedig"</i>. Ni ellir cyflawni'r ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth drwy ddilyn dull rhestr wirio gyfyngedig.</li> <li>Paragraff 7.23 – awgrymu: <i>"<u>Pan fydd cynnig datblygu ar dir, neu'n effeithio ar dir y tu allan i'r safle, sydd yn un o'r categorïau yn Nhabl 2, mae'n debyg y bydd angen arolwg ecolegol. Gallai fod angen i'r arolwg ymestyn y tu allan i ffiniau'r safle.</u>"</i></li> <li>Paragraffau 7.30 – 7.36 – yn ailadroddus. Awgrymu: <i>"<u>os yw cynnig yn debygol o effeithio ar EPS ar neu y tu allan i safle'r cais, rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth arolwg berthnasol ac asesiad o'r effeithiau tebygol ar yr EPS mewn</u></i></li> </ol>	<ol style="list-style-type: none"> <li>Nodir y sylwadau. Bydd y testun yn y paragraffau canlynol yn cael ei ddiwygio.</li> <li>Diwygiadau i'w gwneud i adlewyrchu'r sylwadau.</li> <li>Diwygiadau i'w gwneud i Dabl 2.</li> <li>Bydd paragraff 7.23 yn cael ei adolygu.</li> <li>Bydd y paragraffau'n cael eu hadolygu ynghyd ag adrannau EPS a HRA y CCA.</li> <li>Mae'r profion yn adlewyrchu geiriad Polisi DM2 (maen prawf 1.B) a dylid eu cadw.</li> <li>Nodir hyn, bydd y CCA yn cael eu hadolygu a'u golygu fel y bo'n briodol.</li> <li>Cytuno.</li> <li>Bydd y geiriad yn cael ei adolygu.</li> <li></li> </ol>

<p><u>adroddiad arolwg fel rhan o'r cais cynllunio. Rhaid i'r adroddiad gynnwys mesurau i liniaru unrhyw effeithiau andwyol a rhaid dangos y manylion, sy'n gorfod cyd-fynd â'r gofynion lliniaru yn yr Adroddiad Arolwg, yn glir ar unrhyw gynlluniau a darluniau a gyflwynir. Yr arolwg, adroddiad arolwg.....syrfewr trwyddedig</u></p> <p><u>Mae angen digon o wybodaeth ar yr LPA i asesu'r wybodaeth yn erbyn y Rheoliadau Cynefinoedd a phenderfynu a fyddai'r cynnig yn cyflwyno risg i gynnal Statws Cadwraeth Ffatriol y rhywoqaeth sydd dan fygythiad (y "prawf FCS"). Fel arfer ymgynghorir ag NRW am sylwadau ar gynnwys a chasgliadau'r adroddiad ecolegol ac am gynqor ar amodau cynllunio i warchod bioamrywiaeth os rhoddir caniatâd.</u></p> <p><u>Os oes EPS yn bresennol ac mae difrod neu aflonyddu sylweddol i unigolion, eu cynefin neu i'w mannau gorffwys yn debygol ac ni ellir lliniaru'n ddigonol yn erbyn hyn, rhaid i'r LPA naill ai wrthod y cais neu, mewn amgylchiadau eithriadol, cyflawni tri phrawf statudol."</u></p> <p>6. Mae'r ail o'r tri phrawf statudol gan yr LPA (prawf FCS) yn anghywir: y profion yw "dim opsiwn arall", "IROPI" a "gwneud iawn priodol ar gyfer y rhwydwaith o safleoedd Ewropeaidd". Gallwch gopïo'r profion o <a href="http://www.assembly.wales/research%20documents/17-038/17-038-web-welsh.pdf">http://www.assembly.wales/research%20documents/17-038/17-038-web-welsh.pdf</a></p> <p>7. Byddai'n gliriach ysgrifennu am ganiatâd yn gyntaf ac yna am fod angen trwydded gan NRW.</p> <p>8. Paragraffau 7.37 – 7.43 – gellid labelu'r rhain yn "<u>enghreifftiau o arolygon penodol</u>" oherwydd mae sawl math arall o arolwg fel y gwelwn yn Nhabl 3.</p> <p>9. Paragraff 7.48 – mae 7.33 yn cael ei ailadrodd yn yr adran EPS, sy'n ddryslyd, cyn cyflwyno "<u>trwydded gadwraeth</u>" yn yr adran UKPS felly nid yw'r darlennydd yn gallu dweud ai dim ond i EPS y mae "<u>trwydded ddatblygu</u>" yn berthnasol. Awgrymu bod swyddog polisi a thrwyddedu proffesiynol o NRW yn adolygu a helpu i ddiwygio'r adran hon. <b>(Ymatebydd 6235)</b></p>	
<p><b>Dull graddol fesul cam</b></p> <p>1. Paragraff 8.5 – awgrymu ychwanegu: "<u>Bydd angen i'r LPA ystyried tystiolaeth o ran a fydd y nodweddion neu'r cynefinoedd newydd yn arwain at ddigon o fantais fioamrywiaeth i</u></p>	<p>Nodir y sylwadau.</p> <p>1 a 2. Bydd y Cyngor yn adolygu geiriad yr adran hon.</p> <p>3. Cytuno i ddiwygio'r pennawd. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu.</p>

<p><u>liniaru, gwrthbwysu neu wneud iawn am effeithiau andwyol y datblygiad.</u> “</p> <p>2. Paragraff 8.14 – yn ailadrodd pwyntiau a wnaed eisoes felly mae'r pennawd yn ddryslyd. Awgrymu dileu'r pennawd a chadw 8.15 fel trydydd paragraff y trafodaethau Cyn-Gais fel a ganlyn: <u>"Lle mae trafodaethau cyn-gais yn awgrymu bod angen arolygon ecolegol ymlaen llaw....(wele Dabl 3) a gallai arolwg cynnar leihau oedi gyda'r broses ymgeisio.</u></p> <p>3. Paragraff 8.16 - awgrymu dileu'r pennawd a gwneud hwn yn bedwerydd paragraff yn y Trafodaethau Cyn-Gais fel a ganlyn: <u>"Mewn rhai achosion.....ei angen fodd bynnag dylai Datblygwyr.....mewn achosion eraill [bod angen] cais ychwanegol."</u></p> <p>4. Paragraffau 8.12 – 8.13 – awgrymu pennawd newydd: <u>"Gweithgareddau Anghyfreithlon"</u></p> <p>5. Paragraff 8.21 – mae hwn yn annerbyniol. Os yw'r <u>"tir a gymerir ar gyfer adeiladu"</u> yn golygu unrhyw aflonyddwch gwaith pridd, cynefin, rhywogaeth neu ddaearegol, <u>dylai fod o fewn y llinell goch</u> a ddangosir ar y ffurflen gais. Dylai'r asesiad bioamrywiaeth ystyried yr effaith ecolegol a dylid disgrifio unrhyw gynlluniau lliniaru ac adfer tir.</p> <p>6. Paragraffau 8.24 – 8.30 – yn croesawu'r testun ond yn dymuno cynnwys amod bod angen tystiolaeth o'r manteision / enillion a hyn i fod yn amod ac i gael ei fonitro oherwydd, yn ein profiad ni, nid ydynt bob amser yn digwydd. <b>(Ymatebydd 6235)</b></p>	<p>4. Cytuno.</p> <p>5. Bydd geiriad paragraff 2.81 yn cael ei adolygu.</p> <p>6. Argymhellir diwygio'r geiriad i gyfeirio at fesurau gwneud iawn a hyn i fod yn amod ac i'w monitro'n barhaus.</p>
<p><b>Ymgorffori Bioamrywiaeth mewn Cais Domestig</b></p> <p>1. Paragraff 8.50 – yn darllen fel pe bai'r awdur wedi chwythu ei blwc. e.e. <u>"Mae cyngor pellach ar gael o'r.....we"</u>.</p> <p>2. Gellid tynhau a symleiddio'r adran hon. e.e. Awgrymu bod paragraff 8.38 yn darllen: <u>"Gall ystlumod ac adar, yn enwedig...gwenoliaid a thylluannod gwyn, nythu neu glwydo mewn adeiladau. Mae'r fadfall gribog fwyaf i'w chael mewn selerydd neu, yn fwy cyffredin, y tu allan mewn pyllau dŵr, camlesi neu ffosydd ac yng nghanol cerrig."</u></p> <p>3. Awgrymu ail-drefnu'r penawdau i gyd i roi EPS yn gyntaf, mamaliaid, yna madfallod cribog mwyaf, yna categorïau adar heb fod yn EPS. Pe byddent yn cael eu cyflwyno fel, e.e. <u>Pathew Cyffredin (EPS)</u> ni fyddai angen dweud <u>"rhywogaeth EPS yw hon"!</u></p> <p>4. Paragraffau 8.51-8.58 – yn amwys a ddim yn rhoi hyder yn y wybodaeth a gyflwynir neu bod</p>	<p>1. Nodir y sylwadau. Cafodd y cyfeiriad at y we ei fewnosod o'r blaen ar gais rhanddeiliad pwnc, ond bydd yn cael ei ddileu.</p> <p>2. Nodir y sylwadau ond ystyriwyd nad oedd angen newid.</p> <p>3. Argymhellir ail-drefnu'r penawdau / adrannau.</p> <p>4. -7. Bydd y geiriad yn cael ei adolygu.</p>

<p>y materion hyn yn cael eu rheoli. Mae pobl eisiau gwybod sut i gael gwybod / pwy i ofyn am y pethau hyn oherwydd mae pobl yn disgwyl cyngor manwl a thrylwyr yn y CCA.</p> <p>5. Paragraff 8.59 – camddeall beth yw "gwella a chynnal". Mae hyrwyddo, dysgu am a hysbysu pobl am Geoamrywiaeth yn ddymunol <u>ond nid</u> yw hyn yr un fath â'i gynnal a'i wella.</p> <p>6. Paragraff 8.67 – anghytuno bod hyn yn "<i>gymharol hawdd</i>". Mae'n eithriadol anodd cael ymgeiswyr, yn enwedig ar gyfer datblygiadau mwy, i "<i>dargedu eu gweithredoedd</i>" i'r nodweddion hyn. Ar y cyfan, mae dinistrio cynefin a rhywogaeth oherwydd datblygu ac arferion amaethyddol modern yn gorbwyso, o bell ffordd, unrhyw un o'r mesurau hyn. Er yn llwyr gefnogi'r holl fesurau gwydnwch hyn, canllawiau CCA yw'r ddogfen hon ac nid oes dim yn yr adran atodol hon sy'n gwneud i ni deimlo'n ffyddiog yr ymgorfforir y mesurau gwydnwch hyn o fewn y system gynllunio.</p> <p>7. Yn cytuno y dylid ymgorffori'r mesurau hyn yn y cam dylunio lle bydd mwy o graffu arnynt. <b>(Ymatebydd 6235)</b></p>	
<p><b>Adrannau Coll</b></p> <p>1. Dylai'r CCA gynnwys adrannau ar ddechrau'r ddogfen ar:</p> <p>(a) Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur (Cymru)</p> <p>(b) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Rhan 1, Adran 3: Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy; Adran 4: Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy; Adran 6: y ddyletswydd bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.</p> <p>2. Adran 5.0 – dylai nodi'n glir bod yr LDP yn ddogfen integredig a bod polisïau eraill ar wahân i SP7 a DM2 yn berthnasol i Fioamrywiaeth a Geoamrywiaeth. Er enghraifft: DM7 ar lygredd golau, DM13.13.v ar warchod priddoedd, DM14.2 ar reoli ansawdd yr aer, DM15 ar wastraff mewn datblygiadau.</p> <p>3. Effeithiau cronnus ar fioamrywiaeth a geoamrywiaeth.</p> <p>4. <u>Priddoedd</u> - DM13.13.v. - yn gwarchod priddoedd ac yn enwedig mawn, sy'n nodweddion geoamrywiaeth. Nid oes sôn am y polisi hwn yn y CCA a'r unig le y mae sôn am briddoedd yw yng nghyswllt coetir. Mae priddoedd carbon, gan gynnwys mawn, yn adnoddau dal carbon gwerthfawr ac mae mathau penodol o briddoedd yn cynnal</p>	<p>1. Nodir y sylwadau. Ychwanegir cyfeiriad at yr Adroddiad ar Sefyllfa Byd Natur, ond ystyrir bod Atodiad C yn ddigon i egluro'r gofynion deddfwriaethol.</p> <p>2. Mae'r rhagarweiniad yn egluro hyn a hefyd Atodiad C sydd eisoes yn rhestru'r LDP allweddol. Dim angen newid.</p> <p>3. a 4. Ychwanegir adrannau newydd ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Effeithiau cronnus a chyfunol</li> <li>• Priddoedd</li> <li>•</li> </ul>

<p>ecosystemau unigryw. (Ymatebydd 6235)</p>	
<p><b>Sylwadau ar Adran 6</b></p> <p>1. Paragraff 6.1 – yn egluro bod yr adran yn dilyn fformat DM2, ond mae'r hyn sy'n dilyn y prif benawdau'n anghyson.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Safleoedd <u>dynodedig</u></li> <li>- Cynefinoedd o'r <u>pwysigrwydd mwyaf</u></li> <li>- Rhywogaethau <u>gwarchodedig a phwysig</u></li> </ul> <p>Cyfunir Geoamrywiaeth â Bioamrywiaeth a chyflwynir lefel "Rhanbarthol" newydd. Byddai'n well trin Geoamrywiaeth ar wahân i Bioamrywiaeth yn yr adran hon.</p> <p>2. Mae angen i strwythur y penawdau fod yn glir a chyson. Dylid defnyddio <u>penawdau</u> mewn teip tywyll i dywys y darlennydd yn glir drwy wahanol ddynodiadau yn hytrach na gwasgaru dynodiadau penodol yn nhestun y paragraffau, e.e. 6.11, 6.13, 6.16, 6.17, 6.18, 6.19, 6.21.</p> <p>3. Adran 6 – yn ddryslyd. Mae angen defnyddio termau a fformat yn glir a chyson: "dynodiad" yn hytrach na "statudol"; "gwarchodedig" yn hytrach na "pwysig"; bod rhai swyddogaethau cynllunio wedi'u datganoli i Gymru; pa wybodaeth sydd angen i ymgeiswyr ei darparu am gategoriâu LBAP a choetir; pa ystyriaeth fydd PCC yn ei rhoi i gategoriâu LBAP wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Yn yr is-is-benawdau, dim ond "<u>pwysig</u>" yw cynefinoedd a rhywogaethau LBAP, fodd bynnag yn Nhabl 1 mae gan rywogaethau a chynefinoedd LBAP warchodaeth <u>statudol</u> ond nid gwarchodfeydd RVNR ac AW.</p> <p>4. Mae angen nodi'n glir bod gan PCC ddyletswydd i wella a chynnal bioamrywiaeth <u>ym mhob man</u> lle nad oes dynodiad cenedlaethol neu ryngwladol. Ar gyfer safleoedd gyda dynodiad rhyngwladol a chenedlathol, PCC sy'n gyfrifol am ystyried effeithiau cronus. Mae PCC hefyd yn gyfrifol am ystyried yr effeithiau cronus ar yr holl fuddiannau bioamrywiaeth eraill. Mae angen datganiad tebyg ar gyfer geoamrywiaeth (yn enwedig priddoedd). (Ymatebydd 6235)</p>	<p>1. Bydd y Cyngor yn adolygu strwythur adran 6.</p> <p>2. Bydd y pendawdau'n cael eu hadolygu.</p> <p>3. Bydd y termau hyn yn cael eu hadolygu.</p> <p>4. Bydd y ddyletswydd o dan adran 6 yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cael ei chynnwys yn y CCA.</p>
<p>1. Adran 8 – gellid egluro nad yw rhai safleoedd yn addas i'w datblygu a bod angen i ddatblygwyr / ymgeiswyr ofyn am gyngor proffesiynol.</p> <p>2. Byddai'n ddefnyddiol darparu fframwaith i ymgeiswyr ar sut i gyfiawnhau y gallai mantais y cynnig datblygu efallai wrthbwysu'r effeithiau</p>	<p>1 a 2. Nodir y sylwadau. Dim angen newid.</p>

ar yr amgylchedd yn sylweddol. (Ymatebydd 7076)	
---	--

### **3.4 Cymeradwyo a Mabwysiadu cyfres gyntaf y CCA gan y Cyngor**

3.4.1. Wedi ystyried y materion a'r sylwadau a dderbyniwyd ar CCA Drafft yr Ymgynghoriad, ac sydd wedi bod yn destun craffu, mae'r Cabinet wedi cymeradwyo'r tri CCA yng nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 9fed Hydref 2018.

<b>Noder: Yr adrannau canlynol i'w cwblhau dros gyfnod 2019-2020 wrth i'r rhaglen o baratoi'r CCA barhau.</b>
---

## **4. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar ail gyfres y CCA**

4.0.1 Yn unol â rhaglen y CCA a gytunwyd ar gyfer y CDLI (gweler Tabl 1 ar dudalen 1), yr ail gyfres o CCA i'w paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yw:

- Tirwedd
- Ynni Adnewyddadwy

## **5. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar drydedd gyfres y CCA**

5.0.1 Yn unol â rhaglen y CCA a gytunwyd ar gyfer y CDLI (gweler Tabl 1 ar dudalen 1), y drydedd gyfres o CCA i'w paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yw:

- Ardaloedd Cadwraeth
- Mannau Agored
- Canllawiau ar Ddylunio Adeiladau Preswyl

## **6. Ymgynghoriad Cyhoeddus ar bedwaredd gyfres y CCA**

6.0.1 Yn unol â rhaglen y CCA a gytunwyd ar gyfer y CDLI (gweler Tabl 1 ar dudalen 1), y bedwaredd gyfres o CCA i'w paratoi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yw:

- Archaeoleg
- Yr Amgylchedd Hanesyddol
- Draenio Tir